# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 318

Ebrill 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# Bechgyn Lleol yn Mentro i Gosta Rica



Yn y llun gwelir (rhes gefn) Ifan Hywel, Dylan Jenkins, Thomas Wells a Huw Evans; (rhes flaen) Thomas Glyn Davies a Matt, myfyriwr fu'n cynorthwyo.

Ym mis Gorffennaf, bydd grŵp o saith o fechgyn o ardal Aberystwyth — pob un yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Penweddig — yn treulio mis yng Nghosta Rica fel rhan o raglen datblygiad personol. Mae tri o'r bechgyn yn byw yn nalgylch y Tincer - Dyla Jenkins o Langorwen, Ifan Hywel o Gapel Dewi a Rhodri ap Dafydd o Goginan. Bydd Gwion ap Dafydd, brawd Rhodri hefyd yn mynd i Gosta Rica — gyda grāp arall o ddisgyblion. Yn ystod eu cyfnod yno, byddant yn teithio i wahanol rannau o'r wlad — o brysurdeb y brif ddinas San José i harddwch tawel fforest cymylau Monteverde; o arfodir Môr yr Iwerydd i arfordir Môr y Caribî ac i Tortuguero i weld y crwbanod môr mawr. Bydd cyfnod canol eu halldaith yn cael ei dreulio yn cynorthwyo mewn gwarchodfa anifeiliaid sy'n cynorthwyo'r gymuned leol yn ogystal â diogelu bywyd gwyllt yr ardal. Tra'n gweithio yma, byddant yn byw gyda theuloedd lleol er mwyn profi bywyd Costa Rica go iawn a blasu peth o groeso cynnes y Ticos.

Bydd hwn yn brofiad unigryw a gwerthfawr i bob un o'r bechgyn. Mae'r holl broses, gan gynnwys y cyfnod paratoi ar gyfer y daith, yn gyfle i'r bechgyn ddatblygu sgiliau arwain, gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cynllunio a threfnu — y cyfan yn cyfoethogi eu datblygiad personol.

Fel rhan o'r cyfnod paratoi, mae'r bechgyn yn gyfrifol am godi arian ar gyfer yr alldaith. Hyd yma, mae eu hymdrechion wedi cynnwys pacio bagiau mewn archfarchnadoedd lleol, taith gerdded/seiclo noddedig, bore coffi, ffair wanwyn, gwerthu pwdinau Nadolig, a mynychu amryw sêl cist car. Yn y llun gwelir rhai o'r bechgyn yn cyfri'r arian ar ôl y Ffair Wanwyn diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Morlan!

Ar ddydd Sadwrn, 11 Ebrill, byddant yn dod ynghyd â grŵp arall o bobl ifanc lleol sy'n mynd ar alldaith i Gosta Rica, i gynnal Sêl Cist Ceir ym maes parcio Ysgol Penweddig. Bydd yno hefyd amryw weithgareddau i blant gan gynnwys paentio wynebau, plethu gwallt, twba afalau, gêmau a sgiliau syrcas — ewch i gefnogi felly, neu os hoffai unrhyw un gyfrannu at y daith, ffoniwch 07900-520073.



Rhodri (chwith) a Gwion (dde) ap Dafydd, Goginan

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 318 | Ebrill 2009

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan,
Felin Ddewi, 4 Glanceulan, Penrhyn-coch
☎ 820 583 bevan.paul@gmail.com

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAI 7 A MAI 8 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAI 21

**EBRILL 11** Dydd Sadwrn Arwerthiant cist car a diwrnod hwyl yn Ysgol Penweddig o 9.30 ymlaen. Mynediad 0.50c I archebu stondin cysylltwch â Gwion (01970) 880 350

**EBRILL 11** Dydd Sadwrn Gweithdy'r Pasg yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys o 10.00-12.00. Crefftau yn ymwneud â'r Pasg, te/coffi/sudd blas oren & bynsen boeth.

**EBRILL 15** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010. Croeso Cynnes i bawb.

**EBRILL 18** Dydd Sadwrn Taith gerdded noddedig – Milltir Sgwâr Ann Griffiths (7 milltir); trefnir gan Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Gadael Penrhyn-coch am 9.15 Cysylltwch â Dwynwen Belsey am fwy o fanylion – ffôn 820166

**EBRILL 22** Nos Fercher Bara Caws yn cyflwyno Halibalŵ (Wil Sam) yn Neuadd Tal-y-bont am 7.30 (Tocynnau: Falyri Jenkins 832560)

**EBRILL 24-25** Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

**EBRILL 25** Nos Sadwrn Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno Pum diwrnod o ryddid gan Linda Gittins, Penri Roberts a Derec Williams yn Theatr Canolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 2** Dydd Sadwrn Gŵyl Bedwen Lyfrau yng Nghanolfan Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth am 2.00

**MAI 10-16** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 20-21** Nosweithiau Mercher a Iau Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Tŷ Bernarda Alba yn Theatr Canolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 25-30** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2009 Canolfan y Mileniwm, Caerdydd

**MEHEFIN 5** Nos Wener Te Bethlehem, Llandre am 6.30

**MEHEFIN 19** Nos Wener Ffrindiau Cartref Tregerddan - Barbeciw yn y Cartref am 6.30.

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr mis Mawrth 2009.**

£25 (Rhif 28) Alun Jones, Gwyddfor, Bow Street.
£15 (Rhif 21) Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth, Penrhyn-coch.
£10 (Rhif 9) Mrs S J Jones, Bryn Dryw, Bow Street.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan ein golygydd yn dilyn ymarfer Cantre'r Gwaelod Nos Sul yr 22ain o Fawrth 2009 Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Trefn y Rihyrsals
7.00 o'r gloch
Nos Fercher, Ebrill 22
Morfa, Aberystwyth
Nos Fercher, Ebrill 29
Bethel (A), Tal-y-bont
Nos Fercher, Mai 6
Bethel (B), Aberystwyth

Gwasanaeth Bore Sul, Mai 10fed ym Methel, Aberystwyth nghwmni Andy Hughes am 10.00. Y Gymanfa Ganu am 5.00. Arweinydd: Carol Davies

Dewch draw i Neuadd Rhydypennau nos Wener Ebrill 24ain am 7 o'r gloch i fwynhau noson o adloniant gan dalentau lleol. Trefnir y noson gan elusen lleol Pocket of Dreams ynghyd a Pwyllgor Neuadd Rhydypennau. Tocynnau: Oedolion £3.50, Plant £2.00. plant o dan ddwy oed am ddim. Mae'r pris yn cynnwys lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.



Andy Hughes

### Cyfarfodydd PACT

Yn ddiweddar trefnodd Heddlu Dyfed-Powys gyfarfodydd PACT yn nalgylch y *Tincer*. Cynhaliwyd un y Borth ar Fawrth 26ain pan gytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol

- gyrru gwrth gymdeithasol yn ardal y Borth a Thraeth Ynys-las.
- ymddygiad gwrth gymdeithasol ar orsaf y rheilffordd yn y Borth
- cŵn yn baeddu

Roedd cyfarfod PACT Penrhyn-coch ar Fawrth 23ain. Dyma'r blaenoraethau a sefydlwyd

- gyrru ym Mhenrhyn-coch a Chefn-llwyd
- seiclo heb olau
- darparu mwy o bresenoldeb gweladwy gan yr Heddlu

Bydd y cyfarfod nesaf ym Mhenrhyn-coch nos Iau 16eg o Fehefin am 7.00 yn festri Horeb.

academi

## Awduron yn eu Cynefin: Pum Gwibdaith Lenyddol yng Nghymru

Hoffech chi dreulio diwrnod yng nghefn gwlad yng nghwmni Bardd Cenedlaethol ac Archdderwydd? Neu ddilyn ôl troed un o feirniaid llenyddol mwyaf Cymru ar hyd Bannau Brycheiniog? Dyma'ch cyfle.

Mae'r Academi yn cyflwyno cyfres o **Wibdeithiau Llenyddol** yn seiliedig ar chwe awdur gwahanol yn eu cynefin - **Waldo Williams, Gillian Clarke, Dic Jones, Roland Mathias, Lewis Jones** a **Dafydd ap Gwilym**. Bydd y gwibdeithiau'n cynnwys ymweliadau â lleoliadau pwysig ym mywyd a gwaith yr awduron, darlleniadau a chyfle i ddysgu mwy am yr awduron gan arbenigwyr.

Boed yn ddiwrnod yng Ngheredigion gyda'r Bardd Cenedlaethol Gillian Clarke a'r Archdderwydd Dic Jones, ymweliad â Chwm Clydach a dilyn ôl troed yr awdur adain-chwith Lewis Jones, neu fentro nôl i'r Canol Oesoedd i glywed cyfrinachau hen a newydd am y bardd enwog Dafydd ap Gwilym, mae'r Academi'n gobeithio fod y gyfres hon o wibdeithiau yn cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Derbyniodd yr Academi Wobr Cwmni Disglair gan Gyngor Celfyddydau Cymru 2008-2010 a defnyddir y wobr i gefnogi'r gwibdeithiau hyn, fel rhan o'n cynllun twristiaeth lenyddol. Defnyddir y nawdd hefyd i hybu cynllun y Bardd Cenedlaethol a Sgwadiau `Sgwennu'r Ifainc. Mae pob gwibdaith yn cynnwys cinio a seibiannau coffi mewn lleoliadau arbennig a chost tocyn ar gyfer un wibdaith fydd £37. Mae'r Academi'n gobeithio y byddwch yn dysgu mwy am yr awduron ac yn cael diwrnod i'r brenin:

**Gillian Clarke a Dic Jones yng Ngheredigion, Sadwrn 11 Gorffennaf 2009**
**Arweinydd y daith: Gillian Clarke a Dic Jones**
**Man Cychwyn/Gorffen: Aberystwyth**
Gwibdaith ddwyieithog: Darperir cyfieithiad Saesneg
Cyfle unigryw i dreulio diwrnod yng nghwmni dau o awduron mwyaf cydnabyddedig y Gymru gyfoes: Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru a Dic Jones, neu 'Dic yr Hendre', Archdderwydd presennol yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddau awdur yn byw yng Ngheredigion a byddwn yn ymweld â lleoliadau sydd o bwys iddynt, megis Talgarreg, cartref Gillian, a Pisgah. Bydd yr awduron yn darllen eu gwaith a cheir cyfle yn ystod y wibdaith i sgwrsio â hwy mewn awyrgylch anffurfiol a chartrefol.

**Dafydd ap Gwilym yng Ngheredigion, Sadwrn 24 Hydref 2009**
**Man Cychwyn/Gorffen: Aberystwyth**
Gwibdaith trwy gyfrwng y Gymraeg: Ni ddarperir cyfieithiad Saesneg
Dafydd ap Gwilym yw un o feirdd mwyaf y Gymraeg ac mae'n dal lle blaenllaw ymysg holl feirdd Canol Oesol Ewrop. Dilynwn ôl ei droed wrth ymweld â Brogynin, ble tybir y'i ganwyd, yna draw i Eglwys Llanbadarn — lleoliad ei gerdd enwog Merched Llanbadarn cyn profi hud a dirgelwch Ystrad Fflur. Arweinir y daith gan arbenigwr ar y bardd, Dr Huw Meirion Edwards, Darlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, ac fe'n harweinir yn ôl hyd lwybrau hanes yn llawn asbri Dafydd ap Gwilym. Cewch gyfle hefyd i geisio cyfansoddi llinell neu ddwy o gynghanedd, tra'n ciniawa yn y Talbot yn Nhregaron.

## Angen gwirfoddolwyr i glercio a stiwardio

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ymweld â Bae Caerdydd rhwng 25 a 30 mis Mai eleni. Mae'r paratoadau eisoes yn cyrraedd eu hanterth â'r Brifddinas yn edrych ymlaen at groesawu hyd at 100,000 o ymwelwyr i'r Ŵyl.

Canolfan Mileniwm Cymru fydd canolbwynt yr Eisteddfod gyda'r stondinau a'r arddangosfeydd yn llenwi'r strydoedd gerllaw yn ogystal â'r Roald Dahl Plass, neu'r basin. Yn ogystal â bwrlwm y cystadlu yn Theatr Donald Gordon bydd llwyfannau perfformio o amgylch y maes, theatr stryd a gweithgareddau o bob math. Adeilad hardd y Senedd fydd yn gartref i'r arddangos Celf a Chrefft am yr wythnos - arddangosfa sydd bob blwyddyn yn wledd i'r llygaid ac yn ddathliad arbennig o dalent a chrefft ieuenctid Cymru.

Mae disgwyl oddeutu 15,000 o gystadleuwyr i'r Eisteddfod gyda'r goreuon yn mynd ymlaen i berfformio ar lwyfan enwog Theatr Donald Gordon, Canolfan y Mileniwm. Yn ôl yr arfer eleni mae'r Eisteddfod yn edrych am wirfoddolwyr i glercio a stiwardio yn y rhagbrofion, yn y Theatr ac ar hyd a lled y maes. Caiff pob gwirfoddolwr docyn am ddim i'r maes ac mae'r rheiny sy'n fodlon gweithio am ddau gyfnod yn cael tocyn bwyd yn rhad ac am ddim hefyd.

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, "Mae lleoliad yr Eisteddfod eleni yn gyffrous ynddo'i hun ac rydym fel Mudiad yn edrych ymlaen at gael dychwelyd i'r safle lle cynhaliwyd Eisteddfod mor llwyddiannus bedair blynedd yn ôl.

"Unwaith eto, rydym yn gofyn yn garedig iawn am bob cymorth gan drigolion Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos i sicrhau fod hon yn Eisteddfod yr un mor llwyddianus. Mae ymdeimlad o gyffro a gwefr eisoes ar droed yn y Bae wrth i'r Eisteddfod agosáu ac edrychwn ymlaen at Ŵylyl i'w chofio yma ym mis Mai."

Am fwy o wybodaeth am yr Eisteddfod ewch i www.urdd.org . I gysylltu ynglŷn â gwirfoddoli cysylltwch â stiwardio@urdd.org, clercio@urdd.org neu ffonio 029 2063 5690.

# Y BORTH

### Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Dydd Gwener, 6 Mawrth, yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach, cynhaliwyd Gwasanaeth Rhyngenwadol ar gyfer Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd. Cymerwyd rhan gan aelodau o bob enwad yn Y Borth a'r ardal. Thema'r Gwasanaeth oedd, "Yng Nghrist y mae aelodau lawer ond un corff" ac fe'i drefnwyd, eleni, gan Chwiorydd Papua Guinea Newydd.

Pregethwyd gan Y Parchg Enid Morgan, a edrychodd yn ôl, gydag edmygedd a hoffter, ar wragedd Oes Fictoria a blynyddoedd cynnar y ganrif ddiweddar yng Nghymru, oedd wedi sefyll gyda'i gilydd yn erbyn tlodi, meddwdod a phob anfantais i fagu eu plant yng ngobaith byd gwell. Yr un modd, mae chwiorydd Papua Guinea Newydd yn cydweithio, heddiw, i ddylanwadu ar gymdeithas ac i ledaenu cariad Duw. Diolchir i chwiorydd Eglwys Sant Mihangel, a ddarparodd de a bisgedi ar ddiwedd Gwasanaeth dyrchafol.

### Eglwys Sant Mathew

### Gwasanaethau'r Pasg

9 Ebrill, Dydd Iau Cablyd, am 7pm: Cymun Bendigaid
10 Ebrill, Dydd Gwener y Groglith, am 2pm: Litwrgi a Myfyrdod
12 Ebrill, Dydd Sul Y Pasg, am 8am: Cymun Bendigaid
12 Ebrill, Dydd Sul y Pasg, am 11.15am: Cymun Bendigaid
12 Ebrill, Dydd Sul y Pasg, am 6pm: Gwasanaeth Hwyrol

### Sefydliad y Merched

Jo Jones (Llywydd) oedd y Cadeirydd yng Nghyfarfod SYM Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 18 March. Derbyniwyd adroddiadau am gyfarfod Grŵp y Fedwen yn Neuadd Waunfawr, nos Fercher 11 Mawrth: trefnwyd y cyfarfod gan Susan James. Cyhoeddodd Margaret Griffiths fod tîm dartiau'r Borth wedi cyrraedd rownd olaf cystadleuaeth y Sir.

Siaradwraig y noson oedd Sarah Reynolds, Ynys-las, a ddangosodd y grefft o blygu darnau bychain o bapur i wneud addurniadau. Diolchwyd iddi gan Heather Bustin.

### Clwb yr Henoed

Dydd Iau, 12 Mawrth, yn Neuadd Gymunedol Y Borth, difyrrwyd aelodau o Glwb yr Henoed gan ddisgyblion Ysgol Craig yr Wylfa. Edrychir ymlaen bob amser at eu croesawu ac, unwaith eto, fe fwynhawyd rhaglen amrywiol o ganeuon, adroddiadau, perfformiadau offerynnol a disgo-ddawnsio. Diolchwyd i'r plant ac i'w hathrawon gan Betty Horton, Cadeirydd y Clwb.

Y siaradwraig wadd yn y cyfarfod, ddydd Iau, 26 Mawrth, oedd Robin Ashton, Swyddog Hysbysrwydd Cyngor Henoed Ceredigion. Eglurodd Robin y rhychwant eang o fudd-daliadau sydd ar gael i'r hen ac i'r anabl. Diolchwydd iddi gan Betty Horton.

### Y Lleng Brydeinig

Cyfarfu aelodau o'r Lleng Brydeinig yn Neuadd Gymunedol Y Borth, nos Fercher, 25 March. Y siaradwr gwadd oedd yr Asgell-Gomander Roger Griffiths (gynt o'r Llu awyr) a roes adroddiad ar hanes Ffrynt y Gorllewin yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
Gofalwyd am y noson gan y Parch. Ddr. David Williams.

## "Tangnefedd i Chwi!"

Mae geiriau cyntaf Iesu i'r disgyblion ar ôl ei atgyfodiad yn rhyfeddol - *"Tangnefedd i chwi!"* (Ioan 20:19). Noda efengyl Ioan i Iesu ymweld â'r disgyblion gyda'r nos. Roeddynt yn llawn ofn - dyma gyfnod o dywyllwch a storm ym mywyd y disgyblion. Tridie yn gynt dienyddiwyd eu harweinydd mewn ffordd gwbl greulon. Ai nhw fydde nesaf?

Yng nghanol y tywyllwch, dyma Iesu'n ymddangos. Dyma'u harweinydd wedi atgyfodi ac yn cynnig tangnefedd. Does dim rhaid dychmygu eu hymateb am fod efengyl Ioan yn dangos hyn - *"llawenychodd y disgyblion"* (ad.20).

Ry'n ni'n byw mewn dyddiau o ansicrwydd. Mae'r credit crunch wedi datgelu mor fregus yw ein tangnefedd. A hyn oll yn ychwanegol i'r gofidiau traddodiadol - afiechyd, problemau teuluol, amgylchedd a diogelwch cenedlaethol. Mae ein cydwybod hefyd yn aml yn ein procio - mae ymdeimlad o fethiant yn nodweddi llawer yn ein cymdeithas heddiw. Efallai eich bod chi'n teimlo'r di-obaith yma?

Mae gwir dangnefedd yn beth prin, i'w ddymuno a'i drysori.

Mae datganiad Iesu o bwys, ac felly mae'n ei ail-adrodd (ad.21). Ond yn fwy arwyddocaol byth yw'r hyn a wna rhwng y geiriau (ad.20). Dengys Iesu ôl ei ddioddefaint - ei ddwylo a'i ystlys a drywannwyd. Dyma sylfaen y tangnefedd mae Iesu'n rhoi - ei farwolaeth ar y Groes.

Nid jyst enghraifft arwrol o ddiffyg hunanoldeb oedd marwolaeth Iesu. Mae'n llawer mwy. Ar Groes Calfaria symudodd Iesu ein heuogrwydd a methiant trwy dderbyn y gosb haeddiannol yn ein lle. Fe'n rhyddhaodd o dywyllwch gofidus ac agorodd y ffordd i ni adnabod Duw. Enillodd inni heddwch sydd "goruwch pob deall", sy'n dilyn profi maddeuant a gobaith tragwyddol.

Cafodd y disgyblion dangnefedd a llawenydd wrth edrych ar Iesu a'i glwyfau. Beth am i chi edrych ac ymddiried yn Iesu y Pasg hwn? Gallwch ddechrau trwy ddarllen un o'r efengylau. Ewch i www.free-online.org am fwy o wybodaeth.

**Steffan Jones**

**Mae Steffan Jones yn frodor o Rydaman ac yn byw ym Mhenrhyn-coch. Mae'n swyddog maes gydag Undebau Cristnogol y Myfyrwyr (UCCF)**

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# LLANDRE

### Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Rose ac Aled Rowlands, Clychau'r Gog, sydd wedi symud i Nant Seilo, Penrhyn-coch. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Marjorie Roberts, Chatfield gynt, a fu farw yn Hafan y Waun, Aberystwyth, yn ddiweddar.

### Eglwys Llanfihangen Genau'r-glyn

Mae'n dda gweld y Parchedig Brian Thomas yn ôl yn cynnal gwasanaethau ar ôl cyfnod hir o salwch.

### Te Bethlehem


Cynhelir Te Bethlehem, Nos Wener, 5ed o Fehefin am 6.30 yr hwyr.

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Rydym wedi cael sawl noson ddiddorol yn ystod 2009. Ym mis Ionawr daeth Hedd Piper atom ac fe lwyddodd i drosglwyddo yn ddiddorol iawn agweddau o'i waith fel ceiropractegydd i ni. Dysgom sut mae gofalu am ein cyrff a'r dewis o driniaethau sydd ar gael.

Dathlu Gŵyl Ddewi (er braidd yn gynnar) mewn cinio tri chwrs blasus yng nghlwb golff y Borth oedd yr arlwy ym mis Chwefror. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni ein gŵr gwadd Dewi Hughes. Clywsom am ei hanesion yn perthyn i gôr, bu llawer o chwerthin ac roedd y gwmnïaeth yn felys.

Daeth mis Mawrth a Gwenda James un o drigolion Llandre ac yn nyrs ardal wrth ei galwedigaeth. Soniodd sut y mae pwyslais ar gadw cleifion yn eu cartrefi ac ychydig am y gofal sydd ar gael iddynt. Bu Llinos yn ddigon dewr i gynnig ei throed er mwyn arbrofi gyda theclyn clywed pyls. Mae gwaith nyrs ardal wedi newid tipyn a diolch i Gwenda am roi o'i hamser prin i ddod atom. Hefyd yn ystod y noson ymunodd Elizabeth Evans a ni, hi yw ein trefnydd sirol ac mae bob amser yn braf cael ei chwmni.



Priodwyd Joe Hill (Maeshenllan, Llandre) a Sandie Stewart (Lôn Glanfrêd, Llandre) yn Aberystwyth ar 28ain Chwefror. Maent yn treulio'r mis mêl yn Ne Ffrainc ym mis Mai. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Pob lwc iddynt

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

# GOGINAN

### Diolch

Hoffai trigolion Goginan sydd yn defnyddio y safle bws ger yr Eglwys ddiolch o galon i Eirlys Davies, Brynmeillion ac Ifan ag Anne Mason Davies, Rhiwfelen am lanhau y caban bws. Mae yn awr yn bosib gweld a oes rhywun yn aros am y bws.

## COLOFN CFfI

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

**Swyddogion newydd**
Cynhaliwyd dawns dewis swyddogion newydd i'r sir, nos Wener y 6ed o Fawrth yng ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Cafwyd noson hwylus a chyhoeddwyd mai'r aelodau canlynol fydd swyddogion newydd y sir am y flwyddyn 2009-2010:-

**Brenhines**: Manon Richards, Llanwenog
**Ffermwr Ifanc**: Emyr Evans, Felin-fach
**Morwynion**: Hedydd Davies, Bro'r Dderi; Eleri James, Tal-y-bont;
Mererid Jones, Felin-fach ac Einir Ryder, Pont-siân.
Llongyfarchiadau i chi gyd a dymuniadau gorau yn ystod y flwyddyn.

**Siarad Cyhoeddus Saesneg, Cymru**
Cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg, C.Ff.I. Cymru ar y 7fed o Fawrth yn Llantrisant. Daeth tipyn o lwyddiant i'r aelodau a fu yn cynrychioli'r sir ac ar ddiwedd y dydd, daeth Ceredigion yn gydradd 4ydd. Daeth y tîm dan 26 oed yn 2il sef Rhian Bellamy, Mererid Davies, Helen Howells a Wyn Thomas. Daeth y tîm dan 21 oed yn 3ydd sef Enfys Hatcher, Cerys Jones, Llŷr Jones, Luned Mair, a Heledd Thomas. Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Call My Bluff' hefyd yn ystod y dydd a daeth y tîm yn gydradd 2il sef Hedydd Davies, Cerys Jones a Luned Mair. Llongyfarchiadau mawr!

**Rhowch gynnig arni**
Nos Wener, y 13eg o Fawrth, cafwyd noson hwyliog iawn o 'Rhowch gynnig arni' yng ngwesty Llanina, Llanarth. Bu sawl tîm yn cystadlu gydag aelodau presennol a chyn-aelodau'r mudiad yn cydweithio yn rhagorol i greu adloniant ysgafn i'r gynulleidfa. Plesiwyd y digrifwr a'r beirniad am y noson, sef Ifan Gruffydd, Tregaron yn fawr. Tîm Felin-fach ddaeth i'r brig — da iawn wir!

**Digwyddiadau**
**Ebrill 4 Diwrnod Maes y Sir yn Nhregaron**
**Ebrill 6 Cwis Iau y Sir**
**Ebrill 17 Gala Nofio'r Sir yn Aberaeron**
**Mai 9 Mabolgampau'r Sir ar gaeau Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan**

# BOW STREET

## Suliau Mai

**Capel y Garn**
**http://www.capelygarn.org/**
**10 a 5**

**3** Beti Griffiths Bugail
**10** Cymanfa ganu Bethel Aberystwyth 10 a 5
**17** Bugail
**24** Alwyn Roberts

**Noddfa**

**3** Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.
**10** Cymanfa ganu Bethel Aberystwyth 10 a 5
**17** Uno yn y Garn am 10.30
**24** Oedfa am 5.00 - Gweinidog
**31** Oedfa am 10.00 - Gweinidog

**Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd**

Tro Capel Noddfa oedd cynnal y cyfarfod gweddi eleni ar ddydd Gwener 6ed o fis Mawrth. Fe'i cynhaliwyd yn y prynhawn am y tro cyntaf ers ei ddechrau.

Croesawodd Mrs Mair Lewis, Noddfa y chwiorydd oll, o'r tair eglwys sy'n uno i gynnal y cyfarfod a diolchodd i'r rhai a gymerodd ran.

**Capel Noddfa**

Mrs Beryl Bowen, Mrs Sylvia Smith, Mrs Gwyneth Hunkin, Mrs Janet Petchie, Mrs Diana Jones, Ms Elizabeth Wyn.



Aelodau o Grŵp Help Llaw y Garn gyda'r teganau meddal a'r dillad y maent wedi bod yn eu gwau i'w hanfon i gartref Little Oaks, cartref i blant amddifad, yn Limpodo, gogledd Affrica



Bore Coffi a drefnwyd gan Grŵp Help Llaw y Garn ar 21 Mawrth i godi arian tuag at ymgyrch ddiweddaraf Eric Harries i Mostar, Bosnia.

**Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**

Mrs Glenys Evans, Mrs Susan Jenkins, Mrs Elizabeth Collison, Mrs Hazel Pitt, Mrs Angela Wise, Mrs Jay Evans, Mrs Margery Gill.

**Capel y Garn**

Mrs Mary Thomas, Mrs Elen Evans, Mrs Bethan Jones, Mrs Shân Hayward, Mrs Meinir Lawry, Miss Kathleen Lewis, Mrs Ann Wynne Jones, Mrs Meinir Roberts, Mrs Vera Lloyd. Mrs Eryl Ifans, Noddfa oedd wrth yr organ. Mrs Dinah Henley a Mrs Jean Davies oedd y casglyddion ac fe gasglwyd £50 at waith y mudiad a llenyddiaeth Gristnogol a £4.20 o Noddfa at gludiad y Rhaglenni. Addurnwyd y capel gyda blodau gan Ms Elizabeth Wyn. Mrs Mair Lewis, Noddfa a draddododd yr anerchiad ar y thema "Yng Nghrist y mae aelodau lawer ond un corff".

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Chwiorydd Papua Guinea Newydd, a'i chyfieithu i'r Gymraeg gan Mrs Nan Lewis, Peniel, Caerfyrddin.

Mae gwlad Papua yn cael ei ddisgrifio fel 'Mynydd o aur yn nofio ar fôr o olew', llawer o adnoddau naturiol aur, arian, olew a nwy. Er hynny llawer o dlodi i Amaethyddiaeth yn bwysig iawn iddynt. Gwlad â nifer o ieithoedd, aml ddiwylliant, a chrefyddau'r Cristnogion yno sylweddololdd mai trwy weithio gyda'i gilydd i ledaenu Cariad Duw y mae dylanwadu ar y gymdeithas. Yr uniad yma a'i harweiniodd at y thema eleni - "Llawer o aelodau ond un Corff".

Roedd Chwiorydd Noddfa wedi paratoi lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth er mwyn cael cymdeithasu â'i gilydd.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Cynhaliwyd ein noson dathlu Gŵyl Ddewi nos Lun, Mawrth y 9fed, gyda chinio yn Tŷ'n Llidiart, Capel Bangor. Croesawodd ein Llywydd, Lisa Davies, yr aelodau i'r noson. Ar ôl mwynhau pryd o fwyd blasus (er bod nifer o'r aelodau yn neud "colli pwysau noddedig" i godi arian tuag at Apêl Nyrs y Galon Ceredigion) roedd y platiau yn lan iawn. Y Gŵr gwadd am y noson oedd Alun Jenkins o Bontarfynach. Mae Alun yn adnabyddus iawn i'r aelodau gan ei fod wedi bod yn rhan bwysig o gwmni drama Rhydypennau. Cafwyd noson hwyliog iawn a diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Lisa Davies.

Llongyfarchiadau i Mair Davies ar ddod yn fam-gu unwaith eto — i Tomos Harry — brawd bach i Siôn.

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, Bow Street sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

Gwellhad buan hefyd i Vera Lloyd, Maes Ceiro sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

## Noson o adloniant

Dewch draw i Neuadd Rhydypennau nos Wener Ebrill 24ain am 7 o'r gloch i fwynhau noson o adloniant gan dalentau lleol. Trefnir y noson gan elusen lleol Pocket of Dreams ynghyd a Pwyllgor Neuadd Rhydypennau. Tocynnau: Oedolion £3.50, Plant £2.00. plant o dan ddwy oed am ddim. Mae'r pris yn cynnwys lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

## Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Janet Evans, 96 Bryncastell, yn ei swydd newydd yn Adran Gwasanaethau Cyhoeddus y Llyfrgell Genedlaethol. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yno.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mared a Dylan yn Twickenham ar enedigaeth mab, Ifan Huw, ŵyr i Robert a Delyth Jenkins, 9 Maes Ceiro.



Llun o'r cywion Pasg a baratowyd gan aelodau Grŵp Help Llaw y Garn fel rhan o'r ymgyrch i godi arian i Bosnia.

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

I gloi'r tymor am eleni, nos Wener, 20 Mawrth, aeth aelodau'r Gymdeithas i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno, mwynhawyd detholiad o ffilmiau Cymreig, gan gynnwys y clasur Noson Lawen - a ddaeth â llawer o atgofion nôl! Yna, ymlaen i Bendinas lle roedd bwffe wedi'i baratoi ar ein cyfer. Diweddglo blasus i flwyddyn lwyddiannus arall o gyfarfodydd.

## Pob Lwc

Mae Lowri Lewis, gynt o Brynawel, Pen-rhiw, Bow Street, a nawr yn byw ym Mhenarth, wedi dechrau busnes newydd fel cyfieithydd a darllenwraig proflenni. Pob lwc iti Lowri ar dy fenter oddi wrth Mam, Dad a Rhys.

## Cydymdeimlad

Yr ydym yn cydymdeimlo`n ddiffuant â Mrs Louisa Phillips a`r teulu, 29 Maes Ceiro, ar farwolaeth ei chwaer Doris o Dal-y-bont wedi cystudd blin yn ddiweddar.

## Cymorth i Bosnia

Bore Sadwrn, 21ain o Fawrth, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Garn i dderbyn cyfraniadau ariannol at waith Eric Harries gyda`r anghenus ym Mostar, Bosnia. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £850. Gwerthfawrogwn gefnogaeth a haelioni Eglwysi Gofalaeth y Parchedig Wyn Morris, Eglwys Llanfihangel Geneu`r-glyn, Capel Noddfa, Cartref Tregerddan a chyfeillion lu yn y gymuned.

Bydd Eric Harries yn gadael am Mostar ar y 3ydd o Ebrill gyda`n dymun iadau gorau am siwrne ddiogel a bendithiol.

## Ar y Sgrin

Nos Sul y Pasg dangosir y ffilm 'Skellig' ar 'Sky One'; ffilm wedi'i seilio ar nofel rymus David Almond a gyhoeddwyd ym 1998.
Un o'r merched bach sy'n chwarae rhan y babi yn y ffilm yw Ellie Mai Lloyd Jones, wyres Gwen Lloyd Jones, Lasynys (a merch Aled ac Amanda). Chwech wythnos oed oedd Ellie Mai pan ddechreuwyd ar y ffilmio. Mab arall Gwen, sef Huw Lloyd Jones (Lloyd Ellis), yw Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyntaf y ffilm.

Enillodd y nofel Skellig Fedal Carnegie a Gwobr Whitbread am y llyfr gorau i blant yn 1998 ac yn 2007 fe'i dewisiwyd fel un o'r deg nofel orau i blant a gyhoeddwyd yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Cafodd y nofel hefyd ganmoliaeth uchel iawn gan yr awduron Phillip Pullman a Melvin Burgess.

Y TINCER

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

## Newyddion trist

Daeth ton o dristwch dros yr ardal pan glywsom am farwolaeth erchyll Helen Jenkins drwy ddamwain yn ei chartref ar Fferm y Moc, Ffostrasol. Merch Jean a'r diweddar Emrys Davies gynt o Fferm Aber-ffrwd oedd Helen ac yn chwaer i Janet a Linda. Cofiwn yn arbennig am y teulu i gyd yn yr amser trist yma.

## Urdd y Benywod

Cawsom noson ddiddorol iawn yng nghwmni Charles Arch dechrau mis Chwefror. Croesawodd Nancy Evans ef i'n plith a chawsom lawer o straeon difyr iawn ganddo am ei fywyd cynnar yn ardal Pontrhydfendigaid. Diolch i aelodau Capel Llwyn-y-groes am gael defnyddio y Capel ar y noson yma.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i deulu y Ddol ar enedigaeth merch fach, Francesca, chwaer fach i Amy.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol
Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffon (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd
Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# PENRHYN-COCH

### Suliau Mai Horeb

**http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**
**3** 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
**10** Cymanfa ganu Bethel Aberystwyth 10 a 5
**17** 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
**24** 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

### Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Ebrill, 13 a 27 Mai. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio

### Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Max Jenkins, Ger-y-llan, sydd wedi cael clun newydd yn ddiweddar.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau'r 12fed o Fawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi aeth ein cangen i gadw'n heini yn 'Shape Shifters' yn Aberystwyth, gyda rhai ohonom yn gwylio yn unig ac yn mwynhau gweld y merched yn ymarfer ar y gwahanol offer oedd ar gael yno. Roedd yn agoriad llygad i weld pawb yn cadw'n heini, am fod cymaint o bwyslais ar gadw'n iach heddiw. Diolchwyd i Karen y perchennog a Carys un o'i staff am eu croeso a'i help yn ystod y noswaith gan Glenys Morgan. Coeliwch neu beidio fe aeth pawb wedyn i'r Llew Du yn Heol y Bont i gael swper o gawl a phwdin o darten afalau a hufen, a the a choffi. Diolchwyd i Sandra a Bethan am y swper ardderchog gan Sue Hughes. Do! Roedd yn noson hwyliog dros ben. Dymunwyd pen blwydd hapus i Wendy Reynolds un o'n haelodau a oedd newydd ddathlu pen blwydd arbennig. Edrychwn ymlaen y mis nesaf i groesawu Bethan Gwanas atom i'n diddori.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Delyth Jones, 1 Glanceulan, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael triniaeth. Mae yna amryw yn yr ardal wedi bod yn anhwylus iawn yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i bawb.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Ken Williams, Glanceulan ar golli ei chwaer-yng-nghyfraith, sef Jean Williams, Clarach.

### Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Janis a Ray ar eu priodas ar y 28ain o Fawrth.

### Gwefan Trefeurig

Dyma'r ystadegau diweddaraf o niferoedd o ymwelwyr i'r Wefan:

2, 545 o ymwelwyr rhwng 1 Mai 2008 a 18 Maw 2009.

1, 074 ymwelwyr unigol yn edrych ar 27, 509 o dudalennau o 37 o wledydd.
Daw'r mwyafrif o 2, 401 o'r DU; 52 = UDA; 8 = Yr Almaen; 8 = Sbaen; 7 = Ffrainc
Tudalen gartref: = 3, 373
Lluniau Agnes Morgan = 2, 119
Oriel Hugh Jones = 1, 108
Digwyddiadau = 772
Oriel Hugh Jones 2 = 741
Mudiadau a Chymdeithasau = 655
Y Tincer = 655
Awduron Lleol = 585
Horeb = 496
Local Authors = 461
Hanes Trefeurig = 446
Newyddion = 445
Lluniau Hugh Jones 3 = 433
Lluniau Eisteddfod 2008 = 415
Hugh Evans Photos = 393

### Croeso

Croeso i Iwan Bryn a Nerys sydd wedi symud i 4 Garn Wen.


Phil Davies, y gŵr gwadd, yn ei elfen yn annerch aelodau Cymdeithas y Penrhyn yn eu cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Richmond, Aberystwyth.


Dathlu Gŵyl San Badrig ym Mhenrhyn-coch

### Cofiwch am yr isod !

Cynhelir Gymanfa Ganu yn Eglwys St Ioan Penrhyn-coch ar nos Sul 3ydd o Fai am 7.30 y.h. yng nghwmni Cantre'r Gwaelod dan arweiniad Mrs Eleri Roberts. Y gyfeilyddes fydd Mrs Eirwen Hughes a'r unawdydd Mrs Jen Roberts. Mynediad trwy raglen £5.

Ar Sadwrn 9fed o Fai cynhelir Cinio'r Tlodion yn neuadd Eglwys Penrhyn-coch rhwng 12 a 1.30 y prynhawn. Croeso cynnes i bawb i gefnogi'r achos, bydd yr elw yn mynd tuag at Wythnos Cymorth Cristnogol.

Ar y 11eg Gorffennaf cynhelir Te Hufen a Mefus yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch gydag arddangosfa 'Atgofion' yn yr Eglwys.

Phil Davies, y gŵr gwadd, yn ei elfen yn annerch aelodau Cymdeithas y Penrhyn yn eu cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Richmond, Aberystwyth.

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Yn yr Ysbyty

Cofion gorau i Mrs Gwyneth Harries, Cefnmelindwr, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais. Gobeithio iddi deimlo yn well yn fuan.

Hefyd bu Mrs Nan Howells, Cefnddwylan, yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth feddygol am glun newydd. Hyderwn ei bod yn llai poenus erbyn hyn, ac y caiff adferiad buan, a bydd yn ôl yn ei chartref cyn bo hir. Dymuniadau gorau Nan.

### Cydymdeimlad

Estynnwn gydymdeimlad â Mrs Glenys Gruffudd, Pennant, a'r teulu; Glenys wedi colli chwaer - Mrs Edith Gronow - a hunodd yn ddiweddar yn Ysbyty Bangor. Roedd y ddwy yn agos iawn, meddyliwn amdani yn ei cholled.

### Mr Edwin Glyndwr Vaughan, Maesawel, ( Rhiwarthen Isaf gynt)


Mr Edwin Glyndwr Vaughan

Sydyn iawn oedd marwolaeth Mr Glyndwr Vaughan yn y diwedd, yn 82 mlwydd oed. Gwyddom mai dirywio oedd ei iechyd yn ddiweddar o wythnos i wythnos. Ond taenwyd ton o dristwch fore Sul, pan glywyd ei fod wedi huno yn ei gartref nos Sadwrn Mawrth 21ain; ble y cafodd pob gofal gan ei briod Enid ynghyd â nyrsus Meddygfa'r Llan, a gofalwyr eraill, a oedd yn galw o dro i dro. Digon annifyr yw gweld dyn yn dioddef o ddiffyg anal, ond arhosodd Glyn yn gymharol sionc hyd y diwedd, er y gwyddai nad oedd llwyr wellhad.

Daeth ei dad Edwin Llywelyn o Lundain i Riwarthen Isaf at ei ewythr flynyddoedd yn ôl. Ymhen amser, priododd â Annie Ellen Parry ym 1915, ond bu farw ei wraig ymhen tair blynedd. Ail briododd â Martha Ann Davies a ganwyd Glyn yn un o dri o feibion, Glyn, Dei ac Ossie.

Mynychodd ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Ardwyn, yna daeth adre i weithio ar y fferm.

Priododd â Enid Hughes yn Rhagfyr 1953. Roedd ei dad erbyn hyn yn wael iawn a bu farw ym mis Mawrth 1954, yn gadael Glyn a'i frodyr yn reolwyr fferm Rhiwarthen, ac yn ddiweddarach Glyn ac Ossie yn unig, gan i Dei symud lawr y ffordd i Trering.

Wedi marwolaeth eu mam, gwerthwyd y fferm yn 2002, ond yn anffodus yn fuan iawn, collwyd Ossie a bu hyn yn ergyd iddo.

Yn ôl pob sôn roedd Mr Glyndwr Vaughan yn ffarmwr o fri, roedd yn bleser i weld ei waith yn trin y cloddiau, ac aredig y tir. Roedd pob creadur bob amser mewn cyflwr rhagorol. Dyma oedd ei foddhad. Roedd yn fugail da i'w ddefaid ac yn Llywydd Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion. Roedd cynnyrch ei ardd bob amser yn werth ei weld ac arferai arddangos mewn sioeau cyn dechrau ar y gwaith beirniadu.

Meddai ar lais tenor hyfryd iawn, ac arferai fynychu yr ysgol gân a chymanfaoedd y cylch, a bu yn aelod o gôr Melindwr.

Roedd hefyd yn un o aelodau sylfaenol y pwyllgor gweithiol i godi arian i adeiladu y neuadd bentref ym Mhen-llwyn.

Bendithiwyd Glyn ac Enid ag un merch Meinir. Carai fod yng nghwmni plant, a dotiodd ar ei ŵyr bach, pan anwyd Aled i Meinir a Glyn Roberts.

Roedd wrth ei fodd hefyd yn siarad am blant bach presennol Rhiwarthen Isaf, sydd yn helpu pan fo angen ac yn galw weithiau ym mynglo Maesawel wrth fynd nôl ac ymlaen y lôn, i'r fferm.

Gwnaeth Glyn ei wasanaeth cenedlaethol yn y fyddin, dramor yn India a Malaysia, a chofiwn rai ohonom am yr anrhegion a ddaeth adref i'w nithoedd o Singapore. Oedd, mi roedd yn ffrind i blant.

Cynhaliwyd ei angladd Ddydd Sadwrn Mawrth 28ain yng nghapel Pen-llwyn, dan arweiniad y Parchedig Ifan Mason Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig Athro Tudno Williams, a'r Parchedig Gordon Macdonald.

Yr organyddes oedd Mrs Cynthia Evans, a dosbarthwyd y taflenni gan Mr Gareth Jones a Mr Gwilym Jenkins.Y cludwyr oedd Glyn Roberts, ( mab yng nghyfraith) Aled Roberts (ŵyr) a Richard a Ceredig Vaughan ( neiaint). Rhoddwyd y blodau yn y capel gan Miss Ann Vaughan.

Derbyniwyd rhoddion trwy law Mr Martin Davies a Mr Eilir Morris, tuag at Nyrsus y Gymuned Meddygfa'r Llan.

Chwith meddwl am Maesawel heb Glyn Vaughan; diolch i Dduw am ei fywyd, a boed iddo orffwys mewn hedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf yr ardal â'i briod Enid, Meinir a Glyn (merch a mab yng nghyfraith) Aled (ŵyr) Megan a'r teulu ( chwaer ) Ann Vaughan (nith) a'r cysylltiadau teuluol a ffrindiau eraill, nad ydynt yn byw ym Mhen-llwyn ac yn rhy niferus i'w henwi.

# MADOG

### Suliau Mai Madog

**2.00**
**3** Beti Griffiths
**10** Cymanfa ganu Bethel Aberystwyth 10 a 5
**17** Bugail
**24** Alwyn Roberts

# TREFEURIG

### Eisteddfodol

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lisa Healy, Maes Meurig, ar ddod yn ail ar yr unawd o sioe gerddorol 19-25 oed ac yn gyntaf ar y cyflwyno alaw werin unigol 19-25 oed yn Eisteddfod Aelwydydd Rhanbarth Ceredigion yr Urdd. Pob dymuniad da iddi ym Mae Caerdydd ddiwedd Mai ar yr alaw werin.

# DÔL-Y-BONT

### Geni wyres fach

Llongyfarchiadau i Sŵ Gerallt, Leri, ar enedigaeth wyres fach. Ganwyd Lisa Glas i Polly a Dafydd Gerallt ar 17 Mawrth yn Ysbyty Bron- glais. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## CYSYLLTWCH Â NI

ytincer@googlemail.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# ADOLYGIAD

J. Towyn Jones *Rhag ofn ysbrydion: chwilio am y gwir am straeon ysbryd.* Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2008. 256t. £9.99




Nid cyfrol i'r rhai sydd am ddarllen straeon ysbryd iasol mo hon. Mae'r straeon hynny rhwng ei chloriau ond mae hi hefyd yn gyfrol a ddylai fodloni'r darllenwyr hynny sydd ddim am lyncu pob stori ysbryd heb chwilio ychydig yn ddyfnach am ei gwreiddiau..

Yr hen Ddyfed, yn fras, yw maes yr ymchwil. Y Ddyfed sydd â chymaint o hud wedi bod o'i chwmpas hi erioed. Mae'r awdur yn crwydro y tu hwnt i Geredigion, Caerfyrddin a Phenfro o dro i dro ond ar y cyfan, dyma gartref ysbrydol a chorfforol y cymeriadau mae Towyn Jones yn olrhain eu hanes yn y gyfrol hon.

Oes, mae yma gasgliad o straeon o bob math am ysbrydion eglwysig, ysbrydion gwrêng a bonedd fel ei gilydd, ysbrydion trafferthus a charedig. Ceir yma hefyd adrannau ar gymeriadau unigol pur nodedig fel Dr Joseph Harries, o Dinas, ger Trefdraeth.

Nid yw'r awdur byth yn derbyn y storïau hyn heb fynd i olrhain yr hanes yn ei fanylder. Pwy all yr ysbryd fod? Pa mor gredadwy yw'r ffynhonnell? A oes sawl fersiwn o'r un stori? Sut mae hynny'n cymharu â motiffau a storïau eraill sy'n digwydd ledled y byd? A phan mae'n dod o hyd i'r dystiolaeth, mae'n nodi'r ffynonellau a'r dyddiadau'n fanwl. Dylai hyn fodloni'r amheuwyr.

Mae Towyn Jones yn nodedig fel un sy'n bencampwr ar adrodd storïau ysbryd ac efallai fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr ychydig o frychau sydd yn y gyfrol. Mae gormodedd o ebychnodau, lle byddai'n disgwyl ymateb gan ei gynulleidfa petai'n dweud stori, efallai, a thueddiad ambell waith i neidio o un stori i'r llall. Casgliad o straeon yw casgliad o straeon, heb gysylltiad rhwng y naill â'r llall. Mae cyfrol sy'n ceisio dilyn trywydd ymchwil mwy thematig yn anifail gwahanol. Weithiau mae yna ansicrwydd ynglŷn â pha deulu mae'r gyfrol yn perthyn iddo.

Wedi dweud hynny, mae hon yn gyfrol ddifyr a darllenadwy sydd nid yn unig yn adrodd straeon ysbryd ond, fel mae'n dweud ar y clawr, yn chwilio am y gwir am straeon o'r fath ac yn sgil hynny yn tynnu at ei gilydd gyfoeth o hanes lleol a hanes llafar a ddylai blesio sawl cynulleidfa.

**Arwel Rocet Jones**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# COLOFN MRS JONES

Fe feddyliais i lawer gwaith o le y tarddodd yr arfer o dynnu coes ar y cyntaf o Ebrill a chefais ateb o fath yn Wikipedia.Yr ateb cywir yw nad oes neb yn siwr iawn o le y daw'r arfer ond y mae'n bosibl i'r arfer gychwyn yn fuan wedi mabwysiad y calendar Gregoraidd yn 1582. Hynny yw, arferid y gair i ddisgrifio rhywun a fynnai ymarfer y calendar Iwlaidd, gellid dadlau, felly, mai term am rywun henffasiwn yw neu rywun sydd yn mynnu mynd yn groes i'r arfer gyffredin. Ond gellir amau hyn oherwydd ceir cyfeiriad at driciau ffwl Ebrill yn Chaucer. Theori arall, fwy deniadol efallai, yw mai cyfeirio y mae'r term at unrhyw un a âi ati i blannu ei ardd cyn Calan Mai, diwrnod cyntaf yr haf trwy Ewrop.Yn y ddeunawfed ganrif, dadleuent mai Noa oedd y ffŵl Ebrill cyntaf am iddo anfon y gigfran o'r arch yn rhy gynnar ac iddo wneud hynny ar y diwrnod cyntaf o'r mis Hebreaidd sydd yn cyfateb â'r cyntaf o Ebrill. Ond nid yw hyn, ychwaith, yn wir, o reidrwydd, ynteu y fi sydd yn rhy amheus yn amau'r ddamcaniaeth hon oherwydd mai mewn papur newydd Seisnig ar 13 Ebrill 1789 y cyhoeddwyd hi gyntaf? Ond fe wyddys fod yr Iraniaid yn dathlu Sizdah Bedar, dyddiau'r cellwair, i groesawu eu blwyddyn newydd, mor gynnar a 536 BC, felly, hwyrach, yn wir fod yna gysylltiad â'r hen Noa neu ei wehelyth.

Mae'n haws, am wn i, esbonio'r amwysedd nag esbonio hanes yr arfer.Y rheswm na ŵyr neb darddiad yr arfer yw ei fod yn gyffredin trwy'r byd ar y naill law ac yn gwbl ddigysylltiad â dim y gellid ei ddefnyddio i'w leoli mewn hanes ar y llaw arall. Nid oes iddo, er enghraifft, gysylltiad â dathliad megis y Nadolig neu'r Pasg neu a gŵyl rhyw sant neu ei gilydd, gŵyl gwbl leyg a seciwlar yw a'i hunig fwriad yw gwneud ffŵl o rywun trwy chwarae triciau arno.Yr unig ddau cafeat sydd yw fod yn rhaid i'r cellwair beidio cyn hanner dydd mewn llawer o wledydd ac mai'r ffŵl yw'r un sydd yn ceisio'r tric os yw'n methu a bod y truan yn gweld trwy'r ymdrech. Mewn rhai gwledydd, mae'r math o dric y gellir ei chwarae yn gyfyng iawn, rhoi pysgodyn papur ar ddillad rhywun yn Ffrainc a'r Eidal ac ardaloedd Ffrengig Canada tra bod plant Antwerp yn cloi rhieni i mewn a'u rhyddhau am dal o felysion.Yn wir, cymaint yw'r teimlad na ddylid gwneud dim difrifol ar Ebrill y cyntaf fel i Leopold 1 olddyddio y cytundeb i'w gynghrair yn erbyn Twrci i 31 Mawrth 1683 er mai'r cyntaf o Ebrill yw diwrnod go iwan y cytundeb.

Mae'r arfer o chwarae triciau ar bobl yn arfer y mae'r cyfryngau wedi ei gymryd, rwy'n siwr ein bod i gyd yn cofio eitem Panorama am y spaghetti rhyfeddol a dyfai ar goed ond, gan amlaf, digon diniwed yw'r hwyl. Gall cwmniau ennill cyhoeddusrwydd iddynt hwy eu hunain trwy ddilyn yr arfer, fel y gwnaeth Burgerking pan gyhoeddasant fanylion am ei byrgyr a oedd wedi ei chynllunio ar gyfer pobl llawchwith. A dangos eu hochr ysgafn a dynol y mae gwleidyddion pan ymarferant dric ar bobl.Yr hyn sydd yn syndod yw parodrwydd y cyfryngau i wario arian ac ymdrech i osod y pranciau hyn at ei gilydd a'r modd y gallant hyd yn oed berswadio arlywyddion a chyrff llywodraethol i ymuno yn y sport.Wrth gwrs, nid oes unrhyw broblem mewn tynnu coes, dim ond inni gofio mai tynnu coes a chael hwyl gyda ein gilydd yw'r bwriad, dylid osgoi unrhyw gellwair all frifo ac amharu ar bobl eraill. A'r drwg yw y gall cellwair ffŵl Ebrill gael effeithiau rhyfeddol o annisgwyl.Yn 2002, cyhoedddodd un o bapurau newydd Ottawa fod y gweinidog cyllid, Paul Martin, yn ymddeol i fridio gwartheg a hwyaid. Stori ffŵl Ebrill - ond fe roedd Paul Martin mor uchel ei barch fel yr anfonodd y 'newyddion' farchnad stoc Canada i lawr yn enbyd gan dorri cannoedd o filoedd oddi ar werth busnesau ac arian y wlad! Ac fe gymerodd ddyddiau lawer a sawl gwadiad cyhoeddus gan y papur newydd, y llywodraeth a Paul Martin ei hun cyn i bethau ddod i drefn. Mae'n siwr fod y papur wedi edifeirio na fyddai wedi boddloni ar arfer Ffrancwyr Canada a rhoi pysgodyn papur ar rhywun!

Wn i ddim beth yw'r ffŵl Ebrill gorau a chwaraewyd gan ddarllenwyr y Tincer ond beth am anfon yr hanes atom? Yr unig beth a wn i i sicrwydd ydi ei bod hi wedi hanner dydd ar y cyntaf o Ebrill ac nad oes neb, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, wedi chwarae tric arnaf i.

A phob dymuniad am Basg hapus i bawb ohonoch.

# Taith Patagonia




Yng Ngorffennaf 2007 penderfynais gefnogi hirdaith gerdded i Batagonia, fis Hydref 2008, a oedd yn cael ei drefnu gan yr elusen MENCAP. Golyga hyn fod yn rhaid casglu £3,500, yn ogystal a gofalu fy mod yn ddigon heini i gwblhau'r daith. Gan fy mod yn cadw'n eithaf ffit beth bynnag, y dasg fwyaf oedd yr her i godi'r holl arian angenrheidiol.

Cychwynais godi arian trwy drefnu cyngerdd, noson bingo a noson rasio ceffylau, a thrwy haelioni pobl, cymdeithasau, Banc Barclays ac yn arbennig plant ac athrawon Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a fu yn hael dros ben. Erbyn cychwyn Hydref 2008 roedd y targed o £3,600 wedi ei wireddu. Roeddwn hefyd wedi cael yr holl frechiadau angenrheidiol ac wedi pacio yn barod i fynd.

Beth bynnag, dau ddiwrnod cyn cychwyn, bu rhaid i mi roi'r gorau i deithio oherwydd salwch. Wrth gwrs roeddwn wedi fy siomi'n fawr, ond penderfynodd MENCAP y byddwn yn gallu trosglwyddo'r arian i daith arall yr oeddynt yn ei threfnu, a bod lle i mi fynd gyda hwy, ar daith beic y tro hwn, i Ariannin a Chile, yn Chwefror 2009. Penderfynais ar unwaith dderbyn y cynnig a ffwrdd a mi i Heathrow ar 13eg Chwefror, heb nabod neb o'r 39 cyfranogwyr eraill oni bai am gysylltiad ebost gydag un ferch. Roeddwn braidd yn nerfus a dweud y lleiaf!

Ond fel roedd hi'n digwydd bod doedd dim angen bod yn nerfus oherwydd roedd pawb yn gyfeillgar iawn. Roedd gwahaniaeth oedran rhwng 18-75, gyda deuddeg o ferched a 38 o ddynion.

Ar ôl 25 awr o drafaelio a thair taith awyren, cyrraeddasom Bariloche (yn Ariannin) lle roedd y beiciau yn aros amdanom, a ffwrdd a ni.

Arweinwyd y daith gan feicwyr profiadol a oedd yn gweithio i gwmni lleol yn Ariannin a roedd ein bagiau yn cael eu cludo gan fws o un lleoliad i'r llall bob nos. Roedd y larwm yn canu am 6.15 bob bore (nid gwyliau mo hwn!) ac ar ôl brecwast, cychwyn beicio am 7.30am. Doedd dim dal ar sawl milltir oedd yn ofynnol i ni feicio. Ambell ddiwrnod bu'n rhaid i ni glirio 40km ar dir garw, a thro arall 117km dros dirwedd mynyddig. Cawsom ddau ddiwrnod heulog a'r gweddill yn wynt a glaw. Buom yn beicio i wynt 70km yr awr un diwrnod — am 89km. Roedd hi'n anodd cadw'n syth ar y beic y diwrnod hwnnw, ond roedd ysbryd y gweddill yn hybu pawb ymlaen.

Cychwynwyd y daith yn Bariloche, yna dros yr Andes i Chile, a gorffenwyd wrth ymyl llosgfynydd Orsono. Roeddem wedi beicio bron 500km dros chwe diwrnod a theimlai pawb yn y diwedd eu bod wedi cyflawni gorchest.

Bob nos dros swper, roedd cynrychiolwyr MENCAP yn egluro sut roedd yr arian a gasglwyd yn mynd i wella bywydau unigolion a theuluoedd gydag anhawsterau dysgu. Roedd rhai o gyfranogwyr y daith yn byw neu yn gweithio gyda phobl ac anawsterau dysgu ac roedd eu storiau sut oedd yr arian yn cael ei wario yn gwneud yr ymdrech yn werth chweil.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at yr achos. Cyrhaeddais yn ôl i Aberystwyth ar y 23ain o Chwefror ar ôl taith hir. Mae'r blinder yn celu ond bydd yr atgofion a'r profiadau yn parhau am byth.

**Cerys Humphreys**







# PANTYFEDWEN

**Diolch i Erwyd Howells am y llun o Bantyfedwen a dderbyniodd trwy law Beryl Hughes, Pant-y-peiran. Mae'n anodd credu fod dros ddeng mlynedd ar hugain wedi mynd ers tynnu yr adeilad yn y Borth i lawr.**

**Dyma bytiau o wahanol erthyglau a ymddangosodd ar hyd y blynyddoedd am yr adeilad.**




## Canolfan newydd yr Urdd

Am flynyddoedd lawer bu'r Urdd yn dyheu am ganolfan iddi ei hun. Rhywle a fyddai yn gyfleus i Gymru Gymreig, rhywle heb fod ymhell o'r Swyddfa yn Abeystwyth, rhywfan yn agos i orsaf ac hefyd, ar lan y môr, Rhywle, ymhellach, y gellid rhoi hyd yn oed ddau gant i gysgu ynddo ar yr un pryd. Rhywle heb fod yn rhy gostus i'w gynnal. Yr oeddym yn gofyn llawer, onid oeddym? Un man yn unig a gyflawnai ein holl ofynion, a'r Grand Hotel yn y Borth oedd hwnnw.

Wele yr adeilad yn y llun. Sylwch mor sgwâr a chadarn ydyw. Tu cefn iddo, o fewn ychydig droedfeddi, traeth tywod arian y Borth; tu blaen iddo, o fewn ychydig droedfeddi, traeth arian y Borth yn ymestyn am dros ddwy filltir. Daw rheilffyrdd o bob rhan o Gymru i'r Borth — o'r Gogledd trwy gyffyrdd Afonwen ac Abermaw, o'r Dwyrain trwy'r Trallwm a'r Drenewydd, o'r De ar hyd Reilffordd Canol Cymru ac o'r De-orllewin trwy Gaerfyrddin ac Aberystwyth.

Ac nid yn unig yr oedd yr hotel ar werth — yr oedd ei holl gynnwys hefyd. Yr oedd popeth yn ei le yn ddodrefn a llestri a llieniau, hyd yn oed peiriant gwneud hufen iâ. Ond, wrth gwrs, yr oedd y pris yn uchel iawn, ac ni byddai'r Urdd wedi llwyddo byth i gyrraedd y dyhead oni bai i Gymro haelionus tros ben ddod i'r adwy a chyflwyno'r adeilad at wasanaeth ein mudiad. Ei enw oedd Mr D.J. James o Lundain, ond brodor o Bontrhydfendigaid yn Sir Aberteifi.

*Cymru'r plant* (Gorffennaf 1946)

## Dwyn Mae Cof

Pur anaml y byddwn yn mynd i'r Borth o Aber pan oeddwn yn blentyn — "rhy wyntog yna" meddai Mam. Ond rwy'n cofio bod yma ar y 'diwrnod mawr' pan ddaeth "PANTYFEDWEN" YN "BANTYFEDWEN", nôl yn 1947.

"Lle bu gardd, lle bu harddwch,
Gwelaf lain a'i drain yn drwch".

- dyna fel mae'r bardd B. T. Hopkins yn cychwyn "Rhoshelyg". Pe medrwn aralleirio'r cwpled, mi wnawn, er mwyn disgrifio safle PANTYFEDWEN ar ddechrau 1979.

Rhyfedd o fyd! Mae'r ddwy sy'n ohebwyr lleol i'r *Tincer* a hiraeth mawr ar ôl yr hen le. Fel dywed Nansi Hayes, ni feddyliodd hi, na minnau y byddem yn cael ein hunain ymhen blynyddoedd yn byw yn Y Borth, ac yn gorfod dioddef (efo'r pentrefwyr) gweld y tynnu i lawr. Un arall fu'n 'mynd i Bantyfedwen' yw Mair Evans, teipydd *Y Tincer*. (Tybed oes 'chydig o waed hen dinceriaid yn ein gwythiennau ni'n tair!!?)

Mynychu'r gwersylloedd rhyngwladol, a chyrsiau Alawon Gwerin a Dawnsio Gwerin y byddwn. Weithiau yn mynd yn griw o ferched a bechgyn o Aelwyd yr Urdd yn Aberystwyth i gynorthwyo efo'r gwaith gweini a golchi llestri. Penwythnos rhad ac am ddim am ein gwaith!! Rwy'n siŵr na welodd Ann a Maldwyn griw tebyg i ni am waith — pam? Am ein bod eisiau brysio 'i lawr stâr' i ymuno yn y gweithgareddau. Ie, y neuadd odidog yna; ydy honno wedi mynd?

Ym Mhantyfedwen y deuthum i adnabod a gweld cymeriadau cenedlaethol nad oeddynt ond enwau ar bapur imi cyn hynny. Dysgais llawer iawn, a chefais llawer iawn o hwyl hefyd. Dod i adnabod pobl ifanc o wahanol wledydd - y nhw'n dysgu eu halawon gwerin i ni, a hwythau yn dysgu 'rhai ni'. Pwy sy'n cofio "Yonda Madalena"; "Dw, dw, leicht min in hertzen" (os yw fy sillafu'n gywir) i enwi ond dwy. Cofio croesawu llu o fyfyrwyr o wahanol wledydd, yn eu plith rhai o Malaya oedd mewn Coleg ger Lerpwl (Kirkby). Tybed ble mae Benji Choong erbyn hyn? Dyna i chi gymeriad - ei wyneb bob amser fel yr haul, yn wên i gyd, a phrin yn cyrraedd 5' o daldra. Atgofion o'r pumdegau cynnar ydy'r rhain (tua 1949-53). Rwy'n cofio un penwythnos yn dda iawn - cymaint oedd yr hwyl a'r sbri un noson fel i mi, a dwy ffrind arall, golli'r bws olaf adre i Aberystwyth. Roedd y trên olaf wedi hen fynd hefyd mae'n siŵr. Doedd dim amdani ond aros y noson a mynd yn y bore ac yn syth i'r gwaith. Ond o rywle clywyd llais yn dweud "Af i a chi adre yn Riley dad". Bobol fach, pwy oedd a char dad?! (Nid oedd gan y bobl ifanc eu ceir fel heddiw). A hwnnw'n Riley?! Erbyn hyn roedd ymhell wedi hanner nos, a dyma ni'n tair yn rhedeg i lawr y stepiau (maent yn dal yno hyd yn hyn) y tu ôl i'r bachgen tal, golygus a dewr! Y dyddiau hyn cymer y bws hanner awr i fynd i'r dre, dwn i ddim faint o amser yr arferai gymryd i fynd mewn car, ond y noson honno chwe munud union gymerodd 'y llanc' i fynd o Bantyfedwen i'r Waun! Yna i Aber â mi, ac un arall i Benparcau; mae'n sicr iddo gyrraedd nôl yn un darn gan ei fod erbyn hyn yn Bennaeth y BBC!! Roedd yn ffodus iawn nad oedd dynion y 'cotiau glas' ger Cross Street y noson honno, ni chofiaf fynd trwy Bow Street - gweld talcen tŷ Tŷ Coch (lle arall sydd wedi hen fynd) wnes i i wybod ein bod wedi mynd trwodd!

Wrth ysgrifennu does ond y porth a'r stepiau ar ôl; dylasai'r gwaith fod wedi'i orffen ers diwedd Tachwedd, ond mae'r hen le annwyl yn dangos ei hun yn styfnig iawn i ddymchwel. Pam tybed? Wrth edrych drwy'r porth agored edrychwn i'r dyfodol a gofyn "Pa beth a ddaw yma?"

**Tegwen Pryse**
8 Ionawr 1979
*Y Tincer* 16 (Chwefror 1979)

## Pantyfedwen

"Pe meddwn fedr arlunydd byw" a'r medr i "Gerfio maen a dawn gymesur â'r hen Roegiaid gwych" neu "grefft dramodydd mawr", medd Waldo yn ei gerdd i'r "Menywod", er mwyn rhoi wynebau'r merched arbennig yma ar gof a chadw. Teimlaf y buaswn innau hefyd yn hoffi meddu ar y doniau yma mewn cyswllt arall, sef rhoi Pantyfedwen ar gof a chadw. Yn wir buaswn i'n ddiolchgar pe meddwn ar ei ddawn arbennig ef ei hun i lunio cerdd. Mi fyddai awen y bardd o gymorth mawr y funud yma i roi ar bapur yr hyn rwy'n ei deimlo wrth weld y cawr ar lawr. Ond gan na feddaf yr un o'r rhain, ac nad yw'r awen yn debygol o ddisgyn arna'i gwaetha'r modd — rhaid syrthio'n ôl ar y cof, a hen luniau, a dynnwyd, bron heb eithriad, ar stepiau ffrynt Pantyfedwen.

Cofio am y gwersylloedd Cydwladol yno yn y pumdegau dan ofal Miss Gwennant Davies (Mrs Gillespie nawr). Pwy all fesur y profiad arbennig yma o fod ymysg nifer fawr o bobl ifanc o'r un oed o wahanol wledydd yn sgwrsio a thrafod problemau a dod i'w hadnabod - pobl fel Gabriel o Nigeria, Werner o Awstria, Sinishe o Yugoslavia a llu o rhai tebyg. Cofio am y Cynadleddau "Senedd yr Ifanc" wedyn o'u cychwyn, a'r penwythnos Aduniad ym Mhantyfedwen. Atgofion hapus sydd gen i i gyd am bob arhosiad yma, a'r teimlad o fod yn gyfoethocach o fod wedi bod yno. Cofio'r mynych droeon ar hyd y traeth (rhai ohonynt cyn brecwast yn ceisio dysgu Awdl "Y Galilead", Dewi Emrys ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais), a'r troeon draw at yr Ynys ac i fyny'r graig ac at y Gofgolofn - (heb freuddwydio'r pryd hynny y byddem yn un o drigolion y Graig ryw ddydd), wedi galw ar y ffordd gyda Mr Bowen yn siop y Fferyllydd am ffilmiau

i'r nifer camerâu, ac yn y "Green Dolphin" am goffi. Cofio'n arbennig am y naws yn yr Epilog ar ddiwedd y dydd yn y lolfa fawr - a ninnau'n gymysgedd o ieithoedd a lliw, yn eistedd yn blith-drafflith ar y llawr os nad oedd digon o gadeiriau, ac er ein holl wahaniaethau, ar ddiwedd y dydd fel hyn, yn dod at ein gilydd i roi ein gofal i'r un Duw. Mae melysder o hyd i mi yn yr Emyn a ganem bron heb eithriad yn yr Epilog, ac fe fydd y geiriau yma a Phantyfedwen ynghlwm yn fy meddwl i fwy -

"Nefol Dad, mae eto'n nosi,
Gwrando lef ein hwyrol weddi,
Nid yw'r nos yn nos i Ti".

Alla'i ddim cofio am Bantyfedwen heb sôn am Miss Ann Lloyd a Mr Maldwyn Jones, a'r gofal, y croeso a'r serchogrwydd a gawsom ganddynt bob amser — cofio Ann yn chwarae'r delyn, a Maldwyn yn canu ei hoff gân "Hiraeth".

"Dwedwch fawrion o wybodaeth
O ba beth y gwnaethpwyd hiraeth"

a dyna rwy'n siŵr y mae pawb a fu ac unrhyw gysylltiad â Phantyfedwen ledled Cymru a thu hwnt yn ei deimlo nawr - hiraeth - ond os ydyw'r adeilad ar lawr a'r meini'n deilchion, ni ellir mynd a'n hatgofion oddi wrthym, fe erys y rhain am byth.

Wrth gofio fel hyn — teimlo diolch hefyd am rywle a roddodd gymaint i gynifer ar hyd yr amser.

**Nansi Hayes**
*Y Tincer* 16 (Chwefror 1979)

## Atgofion "Gwas Bach Hohenburgh" yn y "Cambrian Hotel"

Cyn cychwyn gweithio yn yr "Hotel" yn grwt pedair-ar-ddeg oed, mae gennyf atgofion ohonom ni, blant y pentre, yn mynd i edrych ar 'b'yddigions yr ardal yn cyrraedd yno i ginio a dawns. Clywn sŵn carnau'r ceffylau, a'r clychau'n tincian o bell, a rhedeg fyny i weld pwy oedd yn dod. Roedd y ceffylau a'r 'coaches' yn werth eu gweld - pob un yn "grand", ond crandiach fyth fyddai'r gwŷr a'r gwragedd. Nid yw crwt yn un da am ddisgrifio dillad merched (cofio digon o bluf am eu pennau) ond am y dynion un peth sydd yn sefyll allan yn y cof - pob un yn gwisgo menig gwynion ac yn cario ffon ddu a sglein arni.

Un peth arall hoffem wneud oedd dringo'r wal i wylied y gêmau tenis. Dillad hir gan y merched bryd hynny, nid y pethau bach 'ma sy' ganddynt nawr.

Yn bedair-ar-ddeg cychwynnais weithio yn yr "Hotel" - gwas bach i Hohenburgh (y perchennog) a gwas bach i bawb. Roedd gan Hohenburgh dŷ bwyta crand yn Aberystwyth - "The Oriental Cafe", a byddai yn mynd yno bron bob dydd ar y trên. Pan adawai'r trên orsaf Ynys-las, canai cloch yn ei ystafell, a minnau'n barod i gario ei fag i'r orsaf a mynd gydag ef yn y "First Class". Byddwn yn "aros i mewn" yn nhŷ gweithwyr yr "Oriental", sef Havelock House, Heol Pen-glais, pan fyddem yn gweithio yn y Caffi. Ar benwythnos rhaid oedd imi gerdded adre os na fyddai angen fy ngwasanaeth ar y 'Boss'. Tua 8 swllt yr wythnos oedd y gyflog.

Brodor o'r Almaen oedd Hohenburgh, ond o Bradford y daeth i'r Borth. Clywais ddweud iddo gyfrannu "arian mawr" tuag at y "Tank Fund" yn Aberystwyth adeg y Rhyfel 1914-18.

I fynd yn ôl at yr "Hotel" - cynhaliwyd y dawnsfeydd bob pythefnos - "Old Type Dancing" yw'r term erbyn hyn. Arhosai rhai yno am y penwythnos. Deuai ymwelwyr wrth gwrs - a'r rhan fwyaf ohonynt yn golffwyr. Rhuthrai bois y pentre i gyfarfod â'r trenau ar benwythnosau er mwyn cario bagiau'r dynion; a hefyd edrych am y peli ar y "green" a glanhau'r offer. Gallasai'r gorchwylion hyn ddod o dipyn o arian i'w pocedi - roeddynt mor brin adre.

Rwy'n cofio'n dda priodas Arthur Hohenburgh, y mab. Treuliai rhan fwyaf o'i amser yn "Havelock Villa", ac oddi yno y priododd a "barmaid" y Belle Vue. Un anghofus iawn ydoedd, a bore'r briodas gwelodd nad oedd 'cravat' newydd ganddo. Rhaid oedd i mi redeg i lawr i siop Owens yn North Parade a rhedeg nôl gan fod y "carriage and pair" yn aros tu allan i'r tŷ. Yn naturiol yn y "Cambrian Hotel" roedd y brecwast, a phawb yn teithio yno gyda'r trên. Unwaith eto gwelais y menig gwynion - ond menig 'du' oeddynt wedi i bawb ysgwyd llaw â gweithwyr gorsaf Aber a'r Borth!!!

Âi Hohenburgh i'r Eglwys bob bore Sul gan roi sofren aur ar y plât casgliad.

Gwerthodd yr Hotel mewn arwerthiant yn y Midland Hotel, Birmingham am £4,000 — y lle yn sefyll fel ag yr oedd a phopeth ynddo.

Nid yw'r cof yn ddigon da (a minnau yn tynnu mlaen at 90) i gofio manylion a dyddiadau, ond dyna ryw gipolwg ichi o'r amser pan oeddwn i yn "was bach" yn yr "Hotel".

**Tomi Morris, Gleanor**
*Y Tincer* 16 (Chwefror 1979)

## Pantyfedwen

Rhestr, trwy law Mr W. Owen, St. Alban's, Y Borth o berchnogion Pantyfedwen ar hyd y blynyddoedd, ynghyd â'u dyddiau:

## Crynodeb o Berchnogion yr Hotel

Pan symudodd Hohenburgh o'r "Cambrian" i'w westy newydd "Y West End" ym Mhwllheli, prynwyd y lle gan "The White Order Sisters" (Lleianod?) o Ffrainc. Torrodd y rhyfel byd cyntaf allan a rhwystrwyd y chwiorydd i fynd allan o'r wlad honno.

Er mwyn cadw'r gwesty, penodwyd rheolwr iddo gan y Chwiorydd, a gwelwyd Almaenwr (ac Iddew) arall yn dod i'r "Hotel" — sef Vogel. Y rheolwr nesaf oedd Sgotyn — Mr MacClauseland, ac ar ôl ei amser ef bu'r lle yn wag am flynyddoedd. (Ni ddaeth y lleianod i fyw yma wedi'r rhyfel).

Yn y tridegau prynwyd yr "Hotel" gan Mr Bennet, "Commercial Hotel", Aberystwyth, ac yn 1947 rhoddwyd yr hotel yn rhodd i'r Urdd gan y diweddar Syr David James, a'i enw newydd PANTYFEDWEN arno.

Un a fu'n gysylltiedig â Phantyfedwen am flynyddoedd maith yw Mr B. Keel. Aeth yno yn 1946 fel cogydd. Roedd yn loes calon iddo pan fu raid cau drysau'r hen le; a bu am nifer o flynyddoedd wedyn yn parhau i fynd yno yn ddyddiol fel "gwarchodwr". Yn wir, pan symudodd y "difrodwyr" i mewn y symudodd Mr Keel allan!

*Y Tincer 17* (Mawrth 1979)

## Pennod Newydd Yn Hanes Pantyfedwen

Fe gofir mai deng mlynedd yn ôl y dechreuwyd ar y broses hir o ddymchwel yr adeilad hardd cadarn a fu unwaith yn westy yn dwyn yr enw y 'Cambrian'.

Ers y dymchwel mae'r safle wedi bod mewn cyflwr truenus, gyda 'mieri lle bu mawredd', yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio, ac yn safle i goelcerth a'r tân gwyllt ar noson Guto Ffowc.

Clywyd yn ddiweddar bod y safle wedi newid dwylo, a bod dyfodol newydd wedi ei gynllunio ar ei gyfer gan y perchnogion newydd, Mr a Mrs B. Jordan, Cliff Haven.

Ar y safle yn y dyfodol bydd 62 o fflatiau yn cynnwys dwy ystafell wely yr un. Bwriedir gosod y fflatiau ar siâp hanner cylch, yn edrych dros y môr gyda gerddi o'u blaen. Gobeithir cadw'r mur a'r pileri gwreiddiol gyda lle i'r cyhoedd gerdded rhwng y wal a'r datblygiad newydd.

Un a fu'n gysylltiedig â Phantyfedwen am flynyddoedd pan fu ar Staff yr Urdd yno o 1947 i 1971 yw Mr Maldwyn Jones, Aberystwyth, a hyfrydwch yw cael cynnwys ychydig o hanes ei gysylltiad â Phantyfedwen.

Brodor o Bontrhydygroes yw Mr Maldwyn Jones. Pan symudodd i fyw i Aberystwyth dechreuodd ymddiddori yng ngwaith yr Urdd, a dechreuodd weithio i'r Mudiad yn 1947.

Cofia Maldwyn yn dda am yr achlysur o agor Pantyfedwen yn swyddogol dros ddeugain mlynedd yn ôl. Roedd tua 6,000 o bobl wedi dylifo i'r Borth ar y diwrnod arbennig hwnnw yng Ngorffennaf, pan gafwyd seremoni a gwasanaeth ar y traeth, gyda'r Dr. Elfed Lewis yn arwain. Trosglwyddwyd y gweithredoedd a'r allwedd aur gan Syr David James i Syr Ifan ab Owen Edwards ar gyfer yr agoriad swyddogol. Ymhlith y dorf gwelwyd nifer o bobl blaenllaw'r dydd, yn eu mysg Yr Anrhydeddus James Griffiths, Syr Ben Bowen Thomas, Syr David a'r Fonesig Hughes Parry i enwi ond ychydig, ac i gloi'r gweithgareddau cafwyd cinio mawr ym Mhantyfedwen, wedi ei baratoi gan Mr Fred Keall a fu'n brif gogydd yno am flynyddoedd lawer.

Apwyntiwyd Maldwyn yn swyddog ym Mhantyfedwen yn 1947, pan oedd yn Neuadd breswyl i ferched o Goleg Addysg Gorfforol Chelsea. Roedd tua 90 ohonynt wedi gorfod symud yno o Lundain adeg y rhyfel.

Cafodd ei ddyrchafu'n oruchwyliwr ar staff o ddeg yn 1949. Dyma'r adeg yr ymunodd Miss Ann Lloyd â staff Pantyfedwen yn gynorthwywraig i Mr Maldwyn Jones, ac fe barodd y bartneriaeth am bron i chwarter canrif.

Erbyn hynny Neuadd breswyl i fyfyrwyr o Goleg y Brifysgol Aberystwyth oedd yno. Wedi i'r Brifysgol symud allan, myfyrwyr cyntaf Coleg y Llyfrgellwyr a fu'n lletya yno, a hynny o 1964 i 1971.

Daeth cysylltiad yr Urdd â Phantyfedwen i ben yn 1971, ac ymddeolodd Mr Maldwyn Jones ar yr un adeg, a symud yn ôl i Aberystwyth i fyw.

*Y Tincer* 113 (Tachwedd 1988)

## O’r Cynulliad – Elin Jones AC



Dyma’r erthygl gynta’ i mi ysgrifennu ers i mi wneud fy natganiad ar waredu TB a sefydlu ardal ladd yng ngogledd sir Benfro ar gyfer moch daear yn ogystal â gwartheg. Mae’r clefyd TB wedi cynyddu yn syfrdanol dros y 10 mlynedd diwethaf, a llynedd fe laddwyd 12,000 o wartheg yng Nghymru oherwydd iddynt fethu profion TB. Fe gostiodd hyn £23.5 miliwn o iawndal i ffermwyr y flwyddyn ariannol ddiwetha’. I waredu clefyd fel TB, mae’n rhaid ei waredu o bob ffynhonnell — ac mae yna gronfa o’r clefyd yn y boblogaeth moch daear. Y rheswm, wrth gwrs, fod gan Lywodraeth bolisi i waredu TB yw ei fod yn glefyd gall gael ei drosglwyddo i bobol hefyd — ac felly, yn wahanol i glefyd fel y dafod las, mae’n rhaid ei waredu o’n hanifeiliaid drwy’r Llywodraeth yn gwaredu’r gwartheg a digolledu’r ffermwr.

Mae’r clefyd TB yn poeni nifer fawr o ffermwyr yng Ngheredigion erbyn hyn, hefyd, gyda nifer o ffermydd o dan fesurau TB. Mae’r polisi o waredu moch daear hefyd yn un sy’n ennyn cefnogaeth a gwrthwynebiad, gyda rhai yn teimlo yn reit gryf ar ddwy ochor y ddadl. Ond, heb amheuaeth i mi, mae’n rhaid cymryd camau i waredu y clefyd heintus yma.

Fe ddaeth newyddion da o fuddsoddiad i Geredigion yn ystod yr wythnosau diwetha’, wrth i Lywodraeth y Cynulliad gadarnhau arian ar gyfer atal llifogydd. Fe gadarnhawyd £7 miliwn i’r Borth ac £1.9 miliwn i Dregaron. Mae hyn yn ogystal a’r gwaith sydd wedi cychwyn eisoes i ddiogelu Aberaeron rhag llifogydd.

Yn Aberystwyth, mae yna drafodaeth fawr ynglŷn â datblygu canol y dref. Y cynllun mwya’ diweddar yw i ddymchwel nifer o hen adeiladau stryd a chodi canolfan siopa newydd. Bum mewn cyfarfod yn ddiweddar gyda nifer o’r busnesau sy’n cael ei heffeithio ac maent yn flin bod y cynllun wedi newid yn sylweddol ers y gwreiddiol ac y bydd yr effaith ar eu busnes nhw yn sylweddol iawn. Mae’r busnesau yma yn bwriadu herio y Cyngor yn ei ddymuniad i ddymchwel yr adeiladau, ac fe rydw i yn eu cefnogi.

Bum o gwmpas y sir cryn dipyn dros yr wythnosau diwethaf. Cefais gyfarfod gyda chynghorwyr yn Nhrefeurig, a chynghorwyr ym Mhonterwyd i drafod cyflwr y ffyrdd yn yr ardaloedd hynny. Bum yn siarad â Chyngor Ysgol Dyffryn Teifi ar ddatganoli a hefyd cefais yr anrhydedd o fod yn Lywydd i Noson Dathlu Pen blwydd 25 oed i Gymdeithas Clefyd y Siwgwr, Llanybydder a’r ardal. Mae’r Gymdeithas yma wedi gwneud gwaith gwych dros gyfnod hir, ac yn haeddu dathliad.

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu’r cyngor ar nos Iau 26 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. John Evans. Adroddwyd bod y broses o uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen yn mynd rhagddo yn araf, o leiaf y gwaith desg. Gall gymryd tipyn o amser eto erbyn bydd y twrneiod a phob perchen annedd wedi dod a’r gwaith papur i fwcwl.

Unwaith eto byth dywedwyd bod problem cŵn yn baeddu llwybrau a chaeau chwarae yn rhemp. Disgwylir taflenni yn fuan oddi wrth y Cyngor Sir, a fydd yn gymorth i berchnogion cŵn ar sut i gadw trefn ar eu hanifeiliaid. Dosberthir hwy i bob tŷ yn yr ardal gan y cynghorwyr.

Roedd y cyngor yn falch clywed bod yr Adran Gynllunio wedi gorfod rhoi traed yn tir yn ddiweddar a phrosesu ceisiadau yn llawer cyflymach nag arfer. Anfonwyd nifer o geisiadau i’w prosesu gan asiantaethau eraill yng Nghaer, ac erbyn hyn mae gan Geredigion ddull llawer mwy hyblyg o ddelio â’r gwaith.

Ceisiadau Cynllunio: Codi uned oeri yn Pendre (cigydd) Pen-y-garn, Bow Street, dim gwrthwynebiad. Codi annedd ar dir ger Glyn Rhosyn a Chapel Noddfa, Bow Street, dim sylwadau.

Penderfynwyd ymaelodi eleni eto ag Un Llais Cymru, ar gost o £238. Gofynnir i Mr Bryn Smith i fod yn archwiliwr mewnol i’r cyngor. Penderfynwyd talu £5 yn fwy at yswiriant y cyngor er mwyn diogelu symudiadau ariannol. Gwneir asesiad risg o eiddo’r cyngor yn fuan ac yn unol â’r ddeddf pasiwyd cofnod i’r perwyl fod y Clerc yn “swyddog ariannol cyfrifol”.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir, Paul Hinge ei adroddiad misol. Dywedodd y dylai adroddiad parthed y darn priffordd o Rydypennau i Maesnewydd ddod i law unrhyw ddiwrnod yn awr. Y gobaith ydyw gweld sythu ambell gornel peryglus ac estyn y llwybr beicio/cerdded o Dal-y-bont i Rydypennau.

Mae’r comisiwn ffiniau wedi cyfarfod er mwyn cael gwell trefn ar y wardiau. Enghraifft yn ein hardal ni yw dod a thafarn Rhydypennau i mewn i Dirymynach yn hytrach na’r Borth. A bydd y ddwy Rhydhir yn pleidleisio yn Nhirymynach ac nid yn y Faenor.

Gobeithia’r Cynghorydd Hinge weld atgyweiriadau ar y llwybr cyhoeddus yn ystâd Tregerddan yn fuan. Y mae yna broblem ar hyn o bryd parthed y newid asiantaethau. Nid yw’r bolard ger Caerfelin hyd eto wedi ei atgyweirio, ond deallir bod teclynnau i oleuo perygl yn cael eu gosod yno gyntaf.

Eglurodd hefyd bod Coed y Cwm (Cwm Woods), Clarach i’w mabwysiadu fel gwarchodfa natur a bod y trefnwyr yn gofyn am unrhyw argymhellion a sylwadau gan y cyhoedd. Barn y Cyngor oedd bod angen gwella tipyn ar y ffordd gyferbyn a’r amlosgfa a gosod man parcio ar ochr orllewinol o’r ffordd.

Galwodd y Cynghorydd Hinge am gefnogaeth yr ardal mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir yn festri Noddfa ar 27 Ebrill i drafod y posibilrwydd o gael llwybr pont dros y rheilffordd ar ffordd Clarach, yn ogystal â gwneud y ffordd fawr yn Bow Street yn llawer mwy diogel nag ydyw ar hyn o bryd i gerddwyr, ac yn enwedig i’w chroesi. Diolchwyd iddo am ei waith gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Ebrill.


C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o’r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i’ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o’r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae’r plant wrth eu bodd yn dysgu tra’n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae’r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o’r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a’i riant.

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i’r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a’r coesau
GWASANAETH YMWELD Â’R CARTREF
01970 615938

## COLOFNYDD Y MIS

**Cyfres lle bydd rhai a fagwyd yn ardal y Tincer sydd ar wasgar yn cyfrannu colofn.**



# HUW LLOYD WILLIAMS

Braf oedd cael darllen yn y golofn hon y mis diwethaf am helyntion fy hen ffrind, Garmon Ceiro, draw yn Llydaw. Magwyd y ddau ohonom ym mhentre Dolau, ond erbyn hyn mae e tipyn bellach o gartre. Yn wir, 'dwi ddim yn rhy siwr pa mor gymwys ydw i ar gyfer y golofn yma mwyach, o ystyried 'mod i wedi cyrraedd mor bell i ffwrdd o fro'r Tincer â Stryd y Farchnad, Aberystwyth!

Cymeraf bod chi darllenwyr yn weddol gyfarwydd a'r dref honno... Tebyg felly y fydde'r cyfnod cyn imi ddychwelyd i Geredigion o fwy o diddordeb ichi. Er nad oedd astudio yn Llundain yr un fath a chyfnod tramor, roedd hi'n tipyn o newid byd i symud o bentre o chwedeg i ddinas o chwe miliwn. 'Doedd hi ddim fel symud i Loegr, chwaith. Wedi'r profiad o astudio MA yn Efrog, dwi'n argyhoeddedig mai un o ddinasoedd rhyngwladol y byd yw Llundain, ac nid dinas Seisnig. Mae'n bosib iawn mai dyna'r rheswm imi fwynhau cymaint! Yn ystod fy ail flwyddyn yn y brifysgol, cefais i'r cyfle i astudio dramor. O safbwynt fy ffrindiau, roedd fy newis o Wlad Pŵyl yn un od, a rhaid cyfaddef imi gael ambell bwl o ansicrwydd wrth feddwl am y delweddau llwm oedd yn gysylltiedig â Dwyrain Ewrop. Fodd bynnag, bu imi dreulio wyth mis anhygoel yn un o ddinasoedd perta'r byd. Roedd cerdded strydoedd hen dre Krakow fel cerdded nôl i'r Canol Oesoedd. Rhan o'i chwedloniaeth yw'r hanes am Gadfridog Almaenig a gafodd ei orchymyn i ddymchwel y ddinas wrth i'r Natsiaid encilio o fygythiad y Fyddin Goch, ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Llanwyd y dre gyda deinameit, ond nid oedd ganddo'r ewyllys i ddinistrio pensaernïaeth o'r fath brydferthwch. Mae yna nifer o ddinasoedd trawiadol eraill, a thirlun prydferth, sy'n perthyn i'r wlad honno ac yn destun balchder i'r Pwyliaid - gwladgarwyr i'r carn yn fy mhrofiad i. Tybiaf mae'r diweithdra a dinistr cymdeithasol a achoswyd gan y trawsnewidiad i economi cyfalafol oedd y rheswm pennaf i gannoedd o filoedd heidio o 'na, yn hytrach nag unrhyw awydd i adael eu Mamwlad.

Profiad gwych arall oedd fy mlwyddyn i ym Madrid, lle bues i'n dysgu Saesneg tra'n astudio Sbaeneg. Mae fel petai'r ddinas honno yn dal i ddathlu ei rhyddid ar ôl unbeniaeth Franco, er iddo farw dros drideg o flynyddoedd yn ôl. Gloddesta tan yr hwyr a chyfeddach tan y bore - ond trwy bori ar tapas mae nhw'n gallu mwynhau tan y bore heb achosi anrhefn a chwydu pobman! Agoriad llygad arall oedd darganfod mwy am ddiwylliannau gwahanol Sbaen. Er fod gen i ryw syniad annelwig am y cenhedloedd gwahanol fel Gwlad y Basg a Chatalonia (yn bennaf o weld clybiau pêl-droed Bilbao, Real Sociedad a Barcelona ar raglen Sgorio!), dim ond wedi cyfnod yno y sylweddolais i faint sydd gennym ni'r Cymru yn gyffredin â'r gwledydd hynny (heblaw arwyddion ffordd dwyieithog). Fel pob Cymro arall dramor, roedd e wastad yn codi fy ngwrychyn pan fydde tramorwyr yn fy ngalw i'n Sais, neu'n hollol anwybodus ynglŷn â Chymru, ond efallai y byddai'n gwneud lles i ni ddysgu rhywfaint am ddiwylliannau tebyg!

Roedd fy mlwyddyn yn Efrog yn bleserus iawn ar y cyfan — er imi ddod i'r casgliad fod trefi plwyfol Seisnig mor gul eu meddyliau ag unrhyw fan arall! Digon yw dweud mai un o fy hoff atgofion o'r flwyddyn honno oedd gweld Gavin Henson yn hollti'r pyst i drechu Lloegr o 10 i 9. Ond fy amser tramor yn hytrach na fan yna a gafodd fwyaf o ddylanwad ar fy mhenderfyniad i astudio doethuriaeth yn ôl yn Aberystwyth. Roedd byw mewn gwledydd eraill, gwerthfawrogi eu traddodiadau a'u diwylliannau, eu tirlun a'u modd o fyw, yn brofiad a berodd imi edrych ar fy Mamwlad a milltir sgwâr o'r newydd - a chymryd mwy o ddiddordeb a balchder yn yr hyn sy'n werthfawr ac unigryw amdanynt. Cymry gore, Cymry alltud, efallai; ond dwi'n hapus fy mod i (bron a bod) gartre.

**Mae Huw newydd gwblhau ei ddoethuriaeth - 'Cyfiawnder byd-eang' gan ganolbwyntio ar waith yr athronydd John Rawls, ac yn disgwyl y canlyniad. Mae misoedd prysur o'i flaen gan y bydd yn priodi yn Awst gyda Rhiannon o Gwm Gwendraeth ac mae hefyd yn chwilio am waith gan obeithio dechrau gyrfa yn y byd academaidd. Dymuniadau gorau iddo.**

**Y mis nesaf: Sara Huws**

# Bwrlwm Bedwen Lyfrau Cymru'n cyrraedd Aberystwyth

Ydy, mae'r Fedwen, gŵyl lyfrau Cymraeg fywiocaf Cymru, yn dod i Aberystwyth eleni, pan gynhelir digwyddiadau yn y Llyfrgell Genedlaethol ar nos Wener 1 Mai ac yng Nghanolfan Arad Goch gydol dydd Sadwrn 2 Mai.

Ar y nos Wener yn y Llyfrgell Genedlaethol, dewch erbyn 7.00 i lawnsio cyfrol newydd D. Huw Owen a Rheinallt Llwyd: Olrhain Hanes Bro a Theulu. Cewch gyfle ar yr un pryd i weld arddangosfa'r Llyfrgell ar hel achau a hanes teulu. Yna am 8.00, bydd y Swynwr o Solfach, Meic Stevens, yn lawnsio ail gyfrol ei hunangofiant, a hyn i gyfeiliant ambell gân. Bydd y digwyddiad hwn am ddim, ond gan mai lle i 100 yn unig sydd yn y Drwm, bydd angen archebu tocynnau. Y cyntaf i'r felin gaiff fwynhau noson o adloniant bendigedig! Ceir bar yn y digwyddiad yn y Drwm hefyd. Tocynnau ar gael o Siop y Llyfrgell ffôn 632 548.

Ar ddydd Sadwrn, dewch erbyn 10 y bore i fwynhau gwledd o ddigwyddiadau llyfryddol, a'r cyfan, unwaith eto, am ddim! Mae'r digwyddiadau'n cynnwys lawnsio 12 llyfr newydd, a bydd cyfle i glywed oddi wrth doreth o feirdd ac awduron, gan gynnwys Hywel Griffiths, Robat Gruffudd, Jon Gower, Gareth F. Williams, Margaret Jones ac Elgan Philip Davies.

Bydd gweithgareddau gydol y dydd Sadwrn i blant yn cynnwys cyfle i fod yn rhan o weithdy Lewsyn Lwcus (agored i blant blwyddyn 6 a 7 yn bennaf), sesiynau stori i'r plant lleiaf a sesiynau ffitrwydd gyda Geini Cadw'n Heini oddi ar Cyw. Yn ogystal, bydd storiwyr dwieithog yn lawnsio llyfrau Cymraeg a Sbaeneg i'r plant lleiaf.

Bydd Catrin Beard yn cynnal trafodaeth ar thema Aber: Lle'n ein Llên a bydd Lyn Lewis Dafis yn cyflwyno Rhestr Amgen Llyfr y Flwyddyn, sef dewis Dogfael o'r deg llyfr y mae e'n credu ddylai gael clod eleni.

Yn goron ar y diwrnod, cyflwynir Tlws y Fedwen i awdur sydd wedi gwneud cyfraniad oes i boblogeiddio darllen.

Boed law neu hindda, bydd dydd Sadwrn calan Mai yn braf yn Aberystwyth, yng nghysgod llyfrau llon y Fedwen! Dewch yn llu.


Blodau i bob achlysur

**Blodau'r Bedol**

Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur

**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
**Eich cigydd lleol**
**Pen-y-garn**
**Ffôn 828 447**
**Llun: 9-4.30**
**Maw-Sad 8.00-5.30**
**Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol**

**TACSI EDDIE**
**7 DIWRNOD YR WYTHNOS**
**Ffôn 828 642**
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333


**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

# Gwireddu Breuddwydion...

"Bydda di'n garcus ar dy ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol fawr nawr, Sion bach. Mae'n ddiwrnod pwysig iawn. Byddai dy Dad yn falch iawn ohonot ti," meddai Janet Owen, gan roi un sws wlyb ar foch Sion.

"Mam, ti'n embarasio fi..." oedd unig ymateb Sion. Roeddent yn sefyll ar bwys y bus stop, a oedd yn llawn chavs o'r ysgol hŷn yn smocio a giglo ymysg ei gilydd.

"O, iawn," chwarddodd ei fam. "Rwyt ti mor ciwt!" Dyna hi eto. Byth yn gwybod pryd i stopio. Yna, gadawodd ei chyw bach un ar ddeg oed ar ei ben ei hun ynghanol y chavs. Gobeithiodd y byddai ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol uwchradd yn mynd yn iawn.

Ymhen rhai munudau roedd y bws mawr drewllyd, melyn wedi cyrraedd. Roedd yn edrych fel hen daid gwenynen, meddyliodd Sion. Ar ôl esgus chwilio am rywun roedd yn ei adnabod, setlodd i lawr mewn sêt werdd ym mlaen y bws. Wrth edrych o gwmpas am funud neu ddwy yn chwilio am ffrindiau newydd posib, gwelodd fachgen pengoch, tew yn cerdded — os mai dyna'r gair cywir — tuag ato.

"Shwti, Sioni bach?!" gwaeddodd hwnnw, ac heb aros am ateb, "Lle ma dy dad di heddi?"

Clywodd Sion giglo mawr yn dod o'r tu ôl iddo. Roedd yn fachgen swil ar y gorau, ond pan godai'r pwnc yma, roedd yn troi'n sensitif iawn.

"Cafodd e... un bwnsh yn ormod, do fe?" Mwy o chwerthin. Roedd e'n sôn wrth gwrs am ei dad, Stanley Owen. Roedd yn focsiwr, ond bu farw rai blynyddoedd yn ôl mewn gornest bwnio. Cyn iddo gael amser i feddwl yn gall, fe bwnsiodd Sion yr Hyllbeth Oren (doedd Sion ddim yn gwybod ei enw iawn) a glaniodd yn syth i mewn i ffenest y bws. Er syndod mawr i Sion, a oedd yn edrych wedi drysu erbyn hyn, fe graciodd y ffenest ac roedd o leia hanner plant y bws wedi dod i weld beth oedd yr holl sŵn, ac yn gweiddi, "Eto! Eto!" neu "Cer amdani, Sioni Boi!" neu "Gwd pynsh!" Doedd Sion ddim yn gwybod beth i'w wneud; roedd rhan ohono'n teimlo'n sori dros yr Hyllbeth, ond roedd rhan arall ohono'n teimlo'n... falch. Roedd y ddyrnaid yn hollol haeddiannol ac roedd e wedi mwynhau ei rhoi hi.

Y bore hwnnw, aeth Sion a'r Hyllbeth i swyddfa'r prifathro. Ar ôl esbonio, dywedodd y prifathro



wrth Sion y dylai'r "math yna o ymddygiad aros o fewn y gwersi paffio yn unig". Rhoddodd hynna syniad i Sion.

"4! 5! 6! A does dim sôn am Sion Owen yn codi!"

Pan gyrhaeddodd Sion adref ar ôl ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol fawr, y peth cyntaf un a ddywedodd, yn lle "Roedd ysgol yn gret!" neu "Mae'r athro Saesneg yn hen rechyn!" oedd "Mam...? Ga i... fynd i'r clwb bocsio yn y dre? PLÎÎÎÎÎÎÎÎÎÎÎSSSSS??" Roedd ei fam mewn penbleth. Doedd hi wir ddim eisiau ei mab i fynd mewn i'r byd yna ar ôl beth ddigwyddodd i'w gŵr ond rai blynyddoedd ynghynt.

"Ymmm...wedyn falle," meddai'n frysiog. "Sut oedd dy ddiwrnod?"

"Mm, oce. Gwydd yn rybish. Dwi'n clywed fod 'na glwb ar bwys dy waith..." atebodd Sion.

"Am be wyt ti'n sôn, Sion bach?"

"Clwb. Bocsio. Weles i boster ar yr hysbysfwrdd heddiw. Swnio'n hwyl."

A dyna'r ddadl yna wedi gorffen. Sbrintiodd Sion fel mellten yn syth i fyny'r grisiau i chwarae'r Nintendo Wii yn ei ystafell wely am awr neu ddwy. Aeth y diwrnodau nesaf yn yr ysgol braidd yn araf — i ddweud y gwir, doedd e ddim yn canolbwyntio ryw lawer yn y gwersi ac mi roedd e'n aros yn y llyfrgell bob amser egwyl. Roedd e wedi trefnu mynd i'r clwb bocsio ar bwys gwaith ei fam am bedwar o'r gloch brynhawn Gwener. Ond doedd e heb — a ddim yn bwriadu — dweud wrth ei fam.

Felly, brynhawn dydd Gwener, a'i fag yn llawn trainers, fest a band chwys, fe redodd ffwl-pelt tuag at y clwb bocsio. Dim bod angen iddo redeg o gwbwl — roedd y gampfa ddim ond pum munud o gerdded o'r ysgol. Felly roedd e dros ugain munud yn gynnar. Oedd ots? Fe benderfynodd Sion gerdded yn ddewr i mewn i'r gampfa bocsio lle roedd o leia ddeg sach ddyrnu, dynion mewn siorts tyn yn chwysu bwcedi a dwsinau o beli taro yn hongian o'r to. Roedd yna un cylch mawr yn y canol ac mi roedd y llawr bron yn anweladwy o dan y rhaffau sgipio a'r matiau ymarfer.Gwelodd Sion ddyn cyhyrog a allai fod yn unrhyw oed o dri deg i saith deg!

"Pwy wyt ti?" gofynnodd y dyn mewn llais crug, dwfn iawn. Erbyn meddwl, roedd e siÐr o fod yn olygfa ryfedd — gweld bachgen bach yn cerdded mewn i le fel hyn ar ben ei hun.

"Ymmm .... Sion. Owen. Chi?"

"Dwi ddim yn meddwl y dylset ti gael gwybod nes dy fod yn profi dy hun. Sion. Owen. Nawr dere efo fi, 'sdim 'da fi drwy'r dydd." Gwnaeth Sion yn union beth ddywedodd y dyn wrtho am wneud. Byswn i ddim yn hoffi croesi'r dyn yma, meddyliodd. Cerddodd y ddau ohonynt at sach ddyrnu Lonsdale yng nghornel yr ystafell dywyll, ddrewllyd. "Nawr cer ati." Er nad oedd yn deall yn iawn beth roedd y dyn hen yma yn disgwyl iddo'i wneud i ddechrau, fe sylweddolodd ar ôl sbel ei fod yn aros iddo i bwnsio'r bag caled. Felly fe bwniodd Sion y sach yn wan. "Na, na, mae'r ongl yn hollol anghywir!" meddai'r dyn, "Esgus bod y sach yma yn berson... person rwyt wir yn ei gasáu." Fe aeth meddwl Sion yn syth yn ôl at y daith gyntaf hunllefus ar y bws, ac am Yr Hyllbeth. Fe ddyrniodd Sion y bag mor galed ag y gallai, eto ac eto.

"Elwyn Lacey," meddai'r dyn. "Croeso i'r tîm."

"7! 8! 9! Mae'r amser bron ar ben i'r Cymro Caled..."

Yn y bymtheg mlynedd a ddilynodd, fe ddigwyddodd nifer o bethau i Sion Owen. Aeth ei wersi bocsio am ugain munud i bedwar ar bnawn Gwener o nerth i nerth ac fe adawodd yr ysgol yn un-ar-bymtheg oed i astudio chwaraeon yn y coleg. Fe briododd ferch brydferth o'r enw Lisa pan oedd yn ddau ddeg pump, ond erbyn hynny, roedd e wedi dod yn enwog am fod yn un o ddynion caletaf Cymru.

Yn goron ar y cwbwl, roedd Elwyn Lacey yn trefnu ei ornest fawr gyntaf yn America iddo ar ei benblwydd yn ddau ddeg saith, yn erbyn y "Tarw Tywyll" Denzel DeRio, un o baffwyr mwyaf y byd. Yn ei ystafell newid yn Stadiwm y Mileniwm yn dilyn ei ornest syfrdanol yn erbyn Liam Jenkins, roedd ei wraig yn ei longyfarch pan gerddodd Elwyn Lacey i mewn.

"Gobeithio fy mod i ddim yn torri ar draws unrhyw amser... preifat. Ga i siarad â Sion am eiliad plis, Lisa?" gofynnodd Elwyn.

"Wrth gwrs," atebodd Lisa gan roi un sws ar foch Sion. Yna fe strytiodd hi allan o'r stafell.

Esboniodd Elwyn Lacey am fanylion yr ornest yn America yn erbyn DeRio, ac am y tro cyntaf ers ugain munud i bedwar ar y nos Wener yna bymtheg mlynedd yn ôl, gwelodd Lacey ofn yn llygaid Sion. Ond doedd dim angen perswadio — dyma ei gyfle fawr i wneud ei farc.

A dyna lle roedd e, bedwar mis yn ddiweddarach, yn sefyll mewn stadiwm fawreddog yn yr Unol Daleithiau, yn barod am ornest galetaf ei fywyd. Edrychodd o'i gwmpas — cannoedd, miloedd o sêr a sylwebwyr, yn edrych arno. Dyma wireddu ei freuddwyd.

Roedd y gwymp i'r llawr yn teimlo fel breuddwyd — breuddwyd hir, fyrlymus a chymysglyd. Erbyn iddo gyrraedd y llawr, roedd wedi mynd yn dywyll arno, ac fe redodd pawb i'r cylch...

"10! A dydy e dal heb symud. Mae'r meddyg wedi rhoi'r arwydd felltith. Mae bywyd y Cymro Caled yn dod i ben fan hyn heno, er iddo wneud ei orau."

## Cystadleuaeth Llenor Ifanc

Enillydd cystadleuaeth Llenor Ifanc a drefnwyd gan Glwb Rotari Aberystwyth i ddisgyblion Bl. 7-9 oedd Dylan Huw Edwards, Llanfihangel Genau'r-glyn. Mae Dylan yn ddisgybl Bl. 8 yn Ysgol Penweddig. Y dasg oedd ysgrifennu darn o ryddiaith neu gerdd ar y testun 'Gwireddu Breuddwydion'. Disgybl arall yn Ysgol Penweddig sef, Sian Turner, Maes Afallen, Bow Street oedd enillydd Cystadleuaeth gyffelyb, cyfrwng Saesneg i ddisgyblion hŷn.

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 17 Chwefror, yn Festri Horeb, Penrhyn-coch, gyda'r Cadeirydd, Cyng. Richard Owen, yn y gadair. Roedd pum cynghorydd arall yn bresennol, ynghyd â'r Cynghorydd Sir a'r Clerc; derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Kari Walker (a oedd yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod arall), a'r Cynghorwyr Mervyn Hughes, Dai Rees Morgan, Melvyn Evans a Gwenan Price.

Adroddwyd bod copi drafft o fersiwn newydd o fap Trefeurig, yr un sydd ar y sgwâr yn y Penrhyn, wedi'i gywiro, ac y dylai'r map newydd fod yn ei le yn fuan. Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Is-Gadeirydd yn fodlon ar eiriad newydd y dogfennau oedd yn ymwneud â Grŵp Cyswllt Airtricity, ac roeddynt wedi awdurdodi Kari Walker i arwyddo ar ran y Cyngor. Roedd Dafydd Sheppard wedi astudio'r wybodaeth a anfonwyd gan Shelter Cymru am eu gwaith, a chyflwynodd adroddiad i'r Cyngor. Byddai cynrychiolydd Shelter Cymru yn ymweld â'r Cyngor yn y dyfodol.

Roedd Kari Walker wedi anfon adroddiadau ysgrifenedig ar gyfarfod Un Llais Cymru y bu ynddo yn Aberaeron ac am Bwyllgor Adnewyddu Neuadd y Penrhyn. Roedd holiadur perthnasol i'r defnydd o'r Neuadd yn y presennol a'r dyfodol wedi'i ddosbarthu'n eang. Roedd Kari Walker a Melvyn Evans wedi bod mewn sesiwn hyfforddi ar y Côd Ymddygiad a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 28 Ionawr.

Roedd Cyngor Ceredigion wedi hysbysu'r Cyngor y byddai'r cyfnod a ganiateid i gynghorau cymuned ymateb i geisiadau cynllunio yn cael ei gwtogi o 21 diwrnod i 14 diwrnod. Nid oedd y Cyngor yn fodlon ar y penderfyniad hwn, a phenderfynwyd trafod y mater gydag Un Llais Cymru. Roedd Adran yr Amgylchedd, Cyngor Ceredigion, wedi cynhyrchu taflen arweiniol ar gyfer perchnogion cŵn, a phenderfynwyd archebu copïau i'w harddangos pan fyddent ar gael, ynghyd â holi am arwyddion. Penderfynodd y Cyngor na fyddai'n rhoi ei enw yn yr het eleni ar gyfer lle mewn te parti ym Mhalas Buckingham, gan nad oedd y Cadeirydd yn dymuno mynychu'r digwyddiad.

Ymunwyd â'r cyfarfod am tua 20 munud gan Dr Clive King, gŵr lleol oedd a gwybodaeth arbenigol am dderbyniad band llydan ym mhen ucha'r plwyf, y tu draw i Benrhyn-coch. Eglurodd Dr King yr anawsterau a gâi pobl i dderbyn band llydan ym Mhen-bont a'r ardaloedd cylchynol, a dangosodd fod posibilrwydd i BT gael grant gan Lywodraeth y Cynulliad i wella mynediad i'r rhyngrwyd. Diolchwyd i Dr King am yr wybodaeth hon a phenderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod dilynol. Os oedd unrhyw un yn yr ardaloedd a nodwyd wedi ceisio cael mynediad i fand llydan gan BT, ac wedi cael eu gwrthod, dylent hysbysu'r Clerc o hynny.

Adroddodd y Cynghorydd Sir, Dai Suter, am ei ymdrechion i berswadio'r Cyngor Sir i raeanu'r ffyrdd yn yr ardaloedd gwledig teneuaf eu poblogaeth. Nid oedd wedi cael llawer o lwyddiant, oherwydd prinder adnoddau Cyngor Ceredigion; fodd bynnag awgrymodd y dylai'r Cyngor ailanfon ei gais am finiau graean o ystyried y trafferthion a gafwyd gan yrwyr yn ystod y tywydd rhewllyd diweddar.

Ystyriodd y Cyngor y ceisiadau blynyddol am grantiau gan gymdeithasau a mudiadau lleol, a phenderfynwyd cefnogi'r canlynol: Cae Chwarae Pen-bont, £250; Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig, £200; Grŵp Tai Chi Pen-bont, £150; Grŵp Ymestyn Trefeurig, £150; Neuadd y Penrhyn, £750; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, £500; Patrasa, £500; Cymdeithas Ymddeolwyr y Penrhyn, £150; Apêl Trefeurig, Eisteddfod yr Urdd 2010, £200; Cartref Tregerddan, £250; Ambiwlans Awyr Cymru, £300; cyfanswm o £3,400.

Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol: 56 Glanceulan, Penrhyn, estyniad a newidiadau — caniatawyd; Plas Gogerddan, Penrhyn, dileu amod cynllunio — caniatawyd. Ystyriwyd y cais canlynol: darn o dir ger Awelon, Cefn-llwyd, codi tŷ a storfa — cefnogodd y Cyngor y cais.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth,17 Mawrth, yn Hen Ysgol Trefeurig, gyda'r Cadeirydd, Cyng. Richard Owen yn y gadair. Roedd pob cynghorydd yn bresennol, ar wahân i'r Cyng. Dai Rees Morgan a oedd wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Dangoswyd y map newydd o'r plwyf a oedd wedi cyrraedd, ac roedd pawb i'w gweld yn blês iawn ag o. Byddai'n cael ei osod yn ei le unwaith y byddai'r ffrâm dderw wedi'i hadnewyddu. Nododd Kari Walker ei bod wedi cael sawl cŵyn am y sbwriel oedd wedi crynhoi yn y lle aros bysys ger Post y Penrhyn, ac roedd hi wedi mynd ati i glirio'r llanast. Trafodwyd sut y gellid ceisio cadw'r lle'n daclusach yn y dyfodol. Penderfynwyd rhoi hysbysiad yn yr arosfan yn tynnu sylw at y bin sbwriel oedd gerllaw, ac i ymdrechu i ddod o hyd i rywun i dacluso'r lle yn rheolaidd yn y dyfodol.

Nodwyd fod y gyfrol oedd yn cynnwys fersiwn mewn llawysgrifen o gofnodion y Cyngor yn Gymraeg rhwng Ionawr 2002 a Thachwedd 2008 bellach yn llawn. Diolchwyd i Edwina Davies am ei gwaith cymen, a phenderfynwyd trosglwyddo'r gyfrol i Archifdy Ceredigion, lle'r oedd y gweddill o'r hen lyfrau cofnodion. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor o hyn ymlaen yn cadw'r cofnodion mewn ffurf deipiedig yn unig.

Penderfynwyd y dylid mynd ar ôl cynigion Dr. Clive King ar gyfer gwella derbyniad band llydan ym Mhen-bont a'r ardaloedd cylchynol. Roedd Canolfan Rhoserchan eisoes wedi ysgrifennu at y Cyngor yn cefnogi'r alwad am wella'r ddarpariaeth. Roedd Dafydd Sheppard wedi bod mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberystwyth gan Age Concern Cymru lle'r oedd yr heddlu a swyddogion Safonau Masnach wedi tynnu sylw at yr holl wahanol ffyrdd a ddefnyddir gan dwyllwyr i fanteisio ar yr henoed ac eraill. Roedd llawer wedi colli arian sylweddol oherwydd pob math o sgams, ac roedd hi'n bwysig tynnu sylw pobl at hyn. Adroddodd Kari Walker ar gyfarfod diweddaraf Grŵp Cyswllt Airtricity. Roedd trafodaeth bellach wedi bod am y Cynllun Cymunedol, a byddai cynigion yn cael eu hanfon i'r Cyngor yn y man.

Roedd Melvyn Evans a Kari Walker wedi bod mewn cyfarfod ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol, a chafwyd adroddiad llawn ganddynt. Roedd fersiwn o'r Cynllun bellach wedi'i ryddhau ar gyfer ymgynghori. Gofynnwyd i Richard Owen gael golwg arno, a gweld sut y byddai orau i'r Cyngor ymateb iddo.

Nodwyd y penderfyniad cynllunio canlynol: tir ger Pendorlan, Pen-bont, dau dŷ — caniatawyd. Ystyriwyd y ceisiadau canlynol: tir ger Ysgubor Newydd, Capel Madog, sied ar gyfer peiriannau amaethyddol — dim gwrthwynebiad; 44 Dôl Helyg, Penrhyn, estyniad — dim gwrthwynebiad. Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, 21 Ebrill yn Neuadd y Penrhyn. Mae'r cofnodion llawn i'w gweld ar www.trefeuirg.org.

MORRIS & READ

PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y.
a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar
01970 881090 /
07792457816

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# YSGOL RHYDYPENNAU




Y tîm hoci buddugol: o'r chwith-Ffion Wyn, Lucy Ankin, Cerys Harvey, Steffan Clifton, Elis Lewis, Bethan Henley(capten), Rhys Huw, Beca Davies a Ffion Evans




Plant y Meithrin a'r Derbyn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi

## Eisteddfod Ysgol

Ar y 19eg o Fawrth cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ar ôl wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol i bob plentyn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniaid yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru; bu blwyddyn 1 yn creu llun ar y thema 'Cymru', blwyddyn 2 yn dylunio a chreu cenhinen, blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu llawysgrifen a blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerdd ar gyfer y brif gystadleuaeth, sef ennill Y Gadair ar y thema — 'Fy Arwr i'. Eleni, ar ganiad y corn, Beca Davies o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Beca.
Dyma'r gerdd fuddigol

## Fy Arwr i

Wrth i'r faner gorddi yn y gwynt,
Mae'r arwr yn cynhesu,
A'r Sylwebyddion yn siarad yn ddi-stop,
A'r dorf yn dechrau chwysu.

Yng nghanol gwres cystadlu,
Mae'r tensiwn yn anhygoel;
Y Saeson yn sgorio lawer rhy hawdd
A Chymru'n dechrau diflasu.

Ond cyn pen dim daw gwelliant
Daw fy arwr i mewn i'r gêm.
Fel llysywen chwim a chelfydd
Mae'n dechrau codi stêm.

Codi'r bêl o hanner ffordd
A rhedeg nôl at Sais.
Ochor gamu a chic fach bwt
A llwyddo i sgorio cais!

Ychydig funudau yn weddill
A Chymru ar ei hôl hi,
Yr asgellwr gwych yn croesi 'to!
Dyma fy arwr bach i.

A'r chwiban ola'n swnio
Y dorf sy'n gweiddi'n groch
Fy arwr i; seren y gêm,
Shane Williams; athrylith mewn coch!

## 'Dim Syniad' (Beca Davies)

Ac ar ôl cystadlu brwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Eleri a gariodd y dydd yn y pen draw. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb yn ystod y dydd, sef Mrs Ann Evans, Mrs Kathleen Evans a Mrs Luned Richards.

## Llwyddiant y tîm hoci

Mae tîm hoci'r ysgol wedi cael tymor neilltuol o dda eleni. Nid yn unig llwyddodd y tîm i ennill Y Gyngrair yng nghylch Aberystwyth; cipiodd y tîm Y Cwpan hefyd. Llongyfarchiadau mawr iddynt am ennill 'Y Dwbwl!'

## Hollol Bananas!

Cafwyd diwrnod i'w gofio ar y 6ed o Fawrth gan fod pawb wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd i godi ymwybyddiaeth o fudiad Masnach Deg. Daeth pawb â banana i'r ysgol a rhoddwyd tasg yn ymwneud â bananas i bob dosbarth. Ymysg yr hwyl a'r sbri atgyfnerthwyd neges bwysig y dydd.

## Ymweld â'r Morlan

Ar y 4ydd o Fawrth fe aeth blwyddyn 1 a 2 i Ganolfan Ffydd A Diwylliant Y Morlan i weld arddangosfa gan blant o bedwar ban byd. Cawsant gyfle i ychwanegu at yr arddangosfa a gellir gweld ffrwyth eu llafur tan ddiwedd y mis.



Beca Davies yn cipio Cadair yr Eisteddfod




Plant blwyddyn 2 yn mwynhau ymweld â'r Morlan

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Eisteddfod Ysgol

Ar ddydd Gwener y 13eg o Fawrth cynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi'r Ysgol. Eleni, gwahoddwyd Mr Trefor Pugh a Mr Donald Morgan i feirniadu'r cystadlu. Eleni, croesawyd yr ysgol Feithrin i gychwyn yr Eisteddfod a gwelwyd yr aelodau ar y llwyfan yn canu ac yn llefaru. Cafwyd yna ddiwrnod arbennig o gystadlu brwd rhwng aelodau y ddau dim sef Seilo a Stewi. Braf oedd gweld mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu ar o leiaf un gystadleuaeth cyn dod at ei gilydd o fewn eu tîmau i ganu yn y corau. Llongyfarchiadau mawr i bawb am eu gwaith caled. Ar ddiwedd y dydd Seilo fu'n fuddugol a chyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tim, Wil Galbraith a Catrin Evans gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Glenys Morgan.

Enillwyd y gadair eleni am y darn gorau o farddoniaeth gan ddisgybl o flwyddyn 6 gan Mared Pugh-Evans. Testun y barddoniaeth oedd "Storm." Diolch i Mrs Gillian Dobson am ei gwaith beirniaidu. Llongyfarchiadau iddi hi ar ei gwaith. Yn ail ar y gystadleuaeth roedd Anwen Morris ac yn drydedd Hope Jennings-Powell. Dyma'r barddoniaeth buddugol:

Gorwedd yn fy ngwely,
Ceisio cwympo'i gysgu,
Mynd i wylio'r 'teli',
Y storm yn gwrthod arafu.

Mam yn dechrau sgrechian,
Dad yn dal i rochian,
Rhys yn ei ofni,
A 'mola i yn corddi.

Y coed yn ratlan,
A'r glaw yn tincian,
Y gwynt yn chwipian,
A'r mellt yn gwichian.

Y coed yn tawelu,
Ond mae'r glaw yn parhau,
Y gwynt yn troi'n awel,
A'r mellt yn diflannu.

Dydi mam ddim yn sgrechian,
Mae dad yn dal i rochian,
Mae Rhys wedi tawelu,
Mae 'mola i'n well

Mae'r storm wedi pasio,
Mae dad wedi deffro
Mae mam yn y gegin
A Rhys yn y gegin
Mae pawb yn 'ol yn y gwely,
Mae pobman 'di tawelu
Mae pobman yn ddu.
Nos da.

## Eisteddfod Rhanbarth

Bu rhai o'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn ddiweddar. Daeth Mared yn ail ar yr Unawd Telyn. Llongyfarchiadau iddi. Llongyfarchiadau hefyd i barti llefaru'r ysgol a wnaeth yn arbennig ar y llwyfan ond heb gael gwobr. Da iawn chi.

## Hoci

Bu tîmau yr ysgol wrthi yn cystadlu yn frwd iawn ar ddau ddydd Sadwrn gwahanol yn ddiweddar. Ar ddiwedd y tymor, cynhaliwyd twrnament y cynghrair cyntaf ac yna'r twrnament i'r ail gynghrair. Er chwarae yn arbennig iawn, ni lwyddwyd i ennill drwodd i'r rownd derfynol. Da iawn i bob un am eu chwarae brwd. Diolch i Ann Morris, Mr Hill a Miss Cory am hyffroddi'r tîmau yn ystod y flwyddyn ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

## Trwynau Coch

Fel rhan o ddathliadau "Diwrnod Trwyn Coch," gwelwyd y disgyblion (a nifer o'r staff!) yn gwisgo dillad coch. Cafwyd llawer o hwyl a sbri, gyda nifer yn gwisgo trwynau coch. Llwyddwyd i werthu dros 100 o'r trwynau yn ystod yr wythnos flaenorol. Codwyd swm o dros £150 tuag at yr apel.

## Dewi Pws

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr, gwahoddwyd bechgyn blwyddyn 5 i dreulio bore yng nghwmni Dewi Pws. Cynhaliwyd y gweithgareddau yn Llyfrgell y Dre. Treuliwyd amser yn gwrando arno'n dweud stori, yn cyflawni tasgau amrywiol ac yn mwynhau trin llyfrau. Roedd yn gyfle i'r disgyblion i ymweld â'r llyfrgell ac i dderbyn gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yno.

## Roger Thomas

Daeth y Parchedig Roger Thomas atom yn yr ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaeth. Yn ystod y gwasanaeth bu'n sôn am stori'r Samariad Trugarog.

## Cwis Llyfrau

Bu dau o dîmau'r ysgol wrthi'n ddiwyd yn darllen *Achub Myrff* (Alys Jones Gwasg Gomer). Roeddynt yn cymryd rhan yn ail rownd o gwis llyfrau'r Llyfrgell. Da iawn iddynt am eu dyfalbarhad ac i Gwenda Wallace unwaith yn rhagor am yr holl waith paratoi.

## Arad Goch

Braf oedd croesawu Cwmni Arad Goch atom i'r ysgol unwaith yn rhagor. Cafwyd Cyflwyniad o ddrama "Merched y Gerddi" ganddynt. Drama ydy hon yn sôn am dlodi yng nghefn gwlad ynghyd â hanes dwy ferch ar eu ffordd i weithio yn y gerddi yn Llundain. Ar ddiwedd y perfformiad, cafwyd cyfle i sgwrsio gyda'r actorion cyn cael gofyn cwestiynau i'r cymeriadau am eu bywyd ayyb. Diolch i Gwmni Arad Goch am y perfformiad.


M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

camau bach
8.00am – 6.00pm Llun-Gwener
Camau Bach yw'r unig feithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth.
Rydym yn cynnig gofal dydd ac addysg o ansawdd i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol.
Mae'r clwb cyn ac ar ôl ysgol bywiog a leolir yn y feithrinfa yn cludo'r plant i ac o'r ysgolion lleol yn Aberystwyth. Mae Clwb Gwyliau rhagorol ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd. Felly, gall Camau Bach gynnig gofal dydd llawn neu ran-amser i holl blant y teulu.
Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd eich plentyn yn cael y gofal gorau gan y tîm o staff profiadol a chymwys, a hynny mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig.
Mudiad Ysgolion Meithrin
www.mym.co.uk 01970 639655

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

beaufortresearch
Wedi Ystyried Gweithio ym Maes Ymchwil y Farchnad?
Mae Beaufort Research, cwmni blaenllaw ymchwil cymdeithasol yng Nghymru, yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i hyfforddi fel cyfwelwyr.
Nid oes angen profiad ond mae mwynhau cwrdd â phobl, defnydd o gar a sgiliau cyfathrebu da yn allweddol.
Dim gwerthu o gwbwl. Oriau hyblyg
Cysylltwch â Isobel Cooper ar 01874 636416 am fwy o wybodaeth

# TASG Y TINCER

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plentyn yn hel yr wyau Pasg y tro diwethaf, gyda'r Wningen Basg yn ei wylio. Dyna braf oedd derbyn pob un o'ch lluniau, gyda sawl un ohonoch yn trio 'Tasg y Tincer' am y tro cyntaf. Da iawn wir, a daliwch ati! Dyma pwy fu wrthi'n brysur efo'r crayons a'r pensiliau a'r paent:

Katie Boake, Llawen-fan, Salem, Penrhyn-coch; Lisa Ewart, Llys Deri, Cae Rhos, Bow Street; Mari Morgan, Maes y Mieri, Llandre; Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Elain Morgan, Fferm Glanfred, Llandre, Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor; Tomos Ifan, Monachty Bach, Pennant, Llan-non; Lili a Griff Lewis, Arosfa, Broncynfelin, Llangorwen; Mirain Gregory, Y Deri, 6 Llwyn Afallon, Aberystwyth.

A phwy sy'n ennill y tro hwn? Ti, Elain Morgan, Llandre. Mae'n amlwg i ti fod yn brysur iawn efo'r paent a'r brwsh! Llongyfarchiadau mawr.

Ddaru chi gofio newid pob cloc ar 28 Ebrill? Ond does yna gymaint i'w gwneud — oriawr, y cloc ar y wal, cloc y meicrodon, cloc y teledu a'r peiriant DVD, cloc y ffôn symudol ... rwy'n siwr mod i wedi anghofio newid ambell un. Ydech chi wedi sylwi ar y dail a'r blodau'n dechrau tyfu? Mae wyn i'w gweld ar gaeau ardal Y Tincer ers wythnosau. Mi es i weld rhai swci ar fferm yn y Dole yn ddiweddar, ac roedden nhw wrth eu boddau'n gwneud swn a rhedeg rownd a rownd y sied wair. Roedden nhw'n wyn bach busneslyd iawn, yn gwthio eu pennau trwy'r iet! Mae hefyd yn amser pan welir nythod bach yn y cloddiau, ac os edrychwch yn ofalus, 'falle bod yna wyau yn rhai ohonynt! Ydech chi'n gyfarwydd â cherdd bardd o'r enw Waldo Williams, a ysgrifennodd bennill, 'Byd yr aderyn bach'? Dyma ei llinellau cyntaf:

"Pa eisiau dim hapusach
na byd yr aderyn bach?
Byd o hedfan a chanu
A hwylio toc i gael ty.
Gosod y ty ar gesail
Heb do ond wyneb yr haul."

Y mis hwn beth am liwio'r glas-y-dorlan neu'r kingfisher wrth iddo hel pryfed i'w ginio?



Elaine Morgan, Llandre



Ffion Williams , enillydd Chwefror

Unwaith erioed yr ydw i wedi gweld glas-y-dorlan. Ydech chi wedi gweld un? Wyddoch chi pa liwiau sydd i'w gweld ar ei blu? Mae'n nhw'n rhai llachar iawn. Yn ôl y sôn, anfonodd Noa golomen a glas-y-dorlan o'r Arch i chwilio am dir sych. Hedfannodd y glas-y-dorlan mor uchel nes i'w blu gael eu lliwio'n las gan yr awyr a'u llosgi'n oren gan yr haul — dyna stori dda!

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Mai 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch — cofiwch wneud eich gorau! Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr (duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 318 | EBRILL 2009